

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 312 - 60c
Ebrill 2013

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanyrcrws ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Cadair bren
i Osian am
ei gerdd**



Tudalen 2

**Plant
Llanwnnen
â'u hoff lyfr**



Tudalen 12

**Ambiwylans
Awyr yn
elwa**



Tudalen 23

Llwyddiant leuenctid y Fro



Traws-gwlad y Tair Sir: Merched blwyddyn 5 – Ruth Davies yn dod yn ail. Bechgyn blwyddyn 6, Dewi Hobbs yn dod yn nawfed a thîm bechgyn blwyddyn 6 yn ennill o blith pum deg pump o ysgolion, sef Dewi Hobbs, Iestyn Owens a Rhys Davies. Llongyfarchiadau i'r pedwar o Ysgol Bro Pedr.

Lluniau'r Eisteddfodau Rhanbarth yn arbennig i Bapur Bro CLONC gan Nia Davies. Tudalennau 13, 14, 25 a 26.



Tîm rygbi Ysgol Bro Pedr yn ennill Tarian Pencampwriaeth cystadleuaeth rygbi sirol yr Urdd yn Aberaeron yn ddiweddar. Gyda'r tîm yn y llun mae eu hyfforddwyr Mr Thomas a Mr Roderick. Bydd y tîm yn mynd ymlaen i gynrychioli Ceredigion yng Nghystadlaethau Cymru ym Mis Mai.



Mererid Davies o Glwb Pontsian a gafodd ei dewis yn Frenhines Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion ar gyfer y flwyddyn nesaf a'i phedair morwyn (o'r chwith) yw Luned Mair, Llanwenog; Nia Medi Jones, Llanddewi Brefi; Gwawr Thomas, Pontsian a Bethan Roberts, Mydroilyn. Y Ffermwr Ifanc a ddewiswyd yw Arwel Jenkins o Glwb Llanwenog.



Meleri Davies oedd yn fuddugol yn y gystadleuaeth cyfansoddi darn o gerddoriaeth ar gyfer yr Ŵyl Gysegredig Newydd ac Ianto Jones a ddaeth yn 3ydd - y ddau o Ysgol Bro Pedr. Fleur Snow oedd yn ail o Ysgol Dyffryn Teifi.

Eisteddfodau Gŵyl Ddewi



Cynhaliwyd Eisteddfod Ysgol Y Dderi ar Fawrth y 1af i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi, â phob disgybl yn cymryd rhan ac yn cynrychioli'r tai – Teifi, Dulas ac Aeron. Mr Dic Evans oedd ein beirniad gwadd ac fe gafodd ddiwrnod prysur iawn gyda'r amrywiol gystadlaethau canu, llefaru, offerynnol, celf ac ysgrifenedig. Enillydd y gadair oedd Eleri James o



Flwyddyn 6, ac fe enillwyd y tlws am y canwr mwyaf addawol gan Gruffydd Thomas o Flwyddyn 4. Y tŷ buddugol erbyn diwedd y dydd oedd Teifi. Da iawn bawb, a llongyfarchiadau Teifi!

Osian Davies a enillodd Cadair Eisteddfod Ysgol Llanwenog.



Eisteddfod Ysgol Carreg Hirfaen - Enillwyd Cadair CA2 a'r darian am y gwaith Saesneg gorau gan Lisa Elan Evans, Cadair CA1 gan Elen Jones a Chadair newydd i blant blynyddoedd 3 a 4 gan Lowri Fflur Davies.



Y buddugwyr am ysgrifennu storïau Cymraeg yn Seremoni Cadeirio Eisteddfod Gŵyl Ddewi Ysgol Bro Pedr

Rhes flaen (o'r chwith) Blwyddyn 3: 1af - Jodie Evans; 2il - Lisa Jones; 3ydd - Kodi Nisbet. Bl. 6: 1af - Lucy Hill; 2il - Tegan Dunderdale; 3ydd - Bea Casiday. Bl 5: 1af - Elan Jones; 2il - Lauren Hill; 3ydd - Ruth Davies. Bl 4: 1af - Zoe Jarman Davies; 2il - Sioned Davies; 3ydd - Ifan Morgan; Bl 2: 1af - Ffion Davies; 2il - Niah Bouvet; 3ydd - Taidgh Mullins.



Y buddugwyr am ysgrifennu storïau Saesneg yn seremoni Cadeirio Eisteddfod Gŵyl Ddewi Ysgol Bro Pedr

Rhes flaen (o'r chwith) Blwyddyn 4: 1af - Al Attala; 2ail - Joseph Gregg; 3ydd - Melanie Miller. Blwyddyn 3: 1af - Austin Thomas; 2ail - Daniel Legg; 3ydd - Luca Assaf. Blwyddyn 5: 1af - Aisvarya Sridar; 2ail - Pheobe Cory Wrighton; Cydradd 3ydd - Aeron Kime a Rosie Nasr Butler. Blwyddyn 6: 1af - Theo Teasdale; 2ail - Jennifer Hoe; 3ydd Rika Zinn. Blwyddyn 2: 1af - Rihanna Moore-Jackson; 2ail Tegan Allan (yn absennol); 3ydd - Kai Moore (yn absennol).



WEDI CAEL CANIATAD CYNLLUNIO AC EISIAU ADEILADWR?

PEIDIWCH AG EDRYCH DIM PELLACH...

RYDYN NI'N DELIO Â PHOB AGWEDD O'R GWAITH; ADEILADU TAI NEWYDD, ADNEWYDDU, ESTYNIADAU AC ADDASIADAU. O'R CYNLLUNIO I'R CWBLHAU.



- GWAITH COED • TOI • FFENESTRI A DRYSAU • GRISIAU •
- CEGINNAU • YSTAFELLOEDD 'MOLCHI • LLORIAU PREN •
- RHEOLI PROSIECT • DULLIAU EGGI AMGEN A'U GOSOD •



www.cartrefircwm.co.uk f t in

Cartrefir Cwm, 1 Tynyffordd, Rhydybont, Llanybydder, Carmarthenshire, SA40 9QU

Ffôn: 01570 480 214 • Symudol: 07814 027 849 • E Bost: info@cartrefircwm.co.uk

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Ebrill Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen 480526
Mai Delyth Phillips, Llety Clyd, Stryd Newydd 422992
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol: Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd,
Marian Morgan a Delyth Phillips

Dylunydd y mis: Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu e-bostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu llun plant i'w gynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddilyn Clonc ar: Gweplyfr - www.facebook.com/clonc a Trydar - @Cloncyn
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

'CLONC'yn llwyddo.

Linda Williams o Lanfair P.G. yn chwilio am ddarn o farddoniaeth gan Abiah Roderick sef "Prynhawn y Grog". 'Roedd wedi holi a chwilio yn fanwl ond heb ddim llwyddiant. O'r diwedd dyma fynd at y cyfrifiadur a rhoi enw'r bardd ar 'Google'. Beth ymddangosodd ar y sgrin ond 'Clonc'.

Dyma chwilio yn fanwl trwy'r papur bro a ffeindio, dan Gapel Noddfa, adroddiad am wasanaeth a gynhaliwyd yno adeg Y Pasg llynedd, pan adroddwyd y darn 'Prynhawn y Grog'. Gwelodd fod enw Janet Evans yn yr adroddiad, a rhif Janet o dan restr swyddogion 'Clonc'. Dyma Linda yn rhoi galwad ffôn i Janet a dod i ddeall fod y ddwy ohonynt yn adnabod ei gilydd yn dda ac â chysylltiad â Llangynog ger Caerfyrddin ddeugain a phump o flynyddoedd yn ôl. Ond doedden nhw heb gael unrhyw gysylltiad â'i gilydd ers hynny. Hanesyn diddorol iawn Janet, ac o ddiddordeb i holl ddarllenwyr 'Clonc'.

Mae cael cymar yn bwysig!

Aderyn sydd gennyf mewn golwg. Ers misoedd bellach mae gennym un Sigl-i-gwt yn yr ardd. Mae hon wedi fy mhoeni ers tro gan i mi feddwl yn gellweirus am roi hysbyseb yn rhywle yn gofyn am bartner iddi. Mynd i wneud cwpaned o de wrth baratoi 'Siprys' ac edrych allan drwy'r ffenest a gweld – ie – dau Sigl-i-gwt, arwydd sicr fod y Gwanwyn ar y ffordd. Gyda llaw, wyddoch chi am enw arall ar yr aderyn yma - 'Brith yr Oged'. Oes, mae na ryw beth

newydd

i'w ddysgu o hyd, i fi beth bynnag.

Dechrau'n gynnar!

'Roedd y Sadwrn cyn Sul y Blodau yn ddiwrnod oer iawn wrth i mi fynd gyda'm priod i osod blodau ym Mynwent yr Eglwys yn Llambled. Tawelwch ym mhobman nes i ddau blentyn ymddangos ar ben draw y llwybr. Tua chwech oedd yr hynaf a thua pedair oedd y llall. Dyma nhw yn chwilio am botiau gwydr gwag a'u torri ar y llwybr. Roeddwn tua hanner can llath i ffwrdd, yn rhy bell i fod yn sicr am ryw y ddau. Dyma roi bloedd ac fe ddiplannodd y ddau, ond ymhen munud neu ddwy roedd y ddau yn ôl, ac er mwyn dangos nad oedd ofn neb arnynt dyma daflu gwydr yr un eto cyn diflannu.

Teimlais yn hollol ddiymadferth, gan ddweud wrthyf fy hun, "Gad nhw'n llonydd neu efallai mai fi fydd mewn trwbwl am godi llais arnynt nhw". Diawch 'roedd hi'n fuddugoliaeth!

Y gêm rhwng Cymru a Lloegr sydd gennyf mewn golwg. Ni fu cymaint o glodfori ar y tîm erioed glei.

Gweithiodd popeth o'u plaid. Tyrfa yn llanw'r maes, canu da ar ein Hanthem Genedlaethol, a chwaraewyr oedd yno i ennill. Y papur heddiw yn rhyw synio fod yr ymwelwyr heb gael chwarae teg, y refferi ddim yn deall ei waith glei. Mae'n rhaid ffeindio esgus yn rhywle. Da iawn Cymru!

Pasg hapus i chi, a dim gormod o wyau siocled.

Pob hwyl - CLONCYN

Diolch yn fawr i:

Cyngor Cymuned Llangybi - £50.00
am eu cefnogaeth ariannol tuag at goffrau
cynhyrchu papur bro CLONC.
Gwerthfawrogi hyn yn fawr iawn.

Gwobrau Eisteddfod Sir Gâr 2014

Mae testunau Eisteddfod Sir Gâr bron â chynnydd pen eu taith drwy'r pwyllgorau yn barod i'w cyflwyno yn Seremoni y Cyhoeddi ar y 29 o Fehefin eleni yng Nghaerfyrddin.

Mae'n amserol felly ac yn gyfle arbennig i gynnig gwobr ar gyfer un o'r cystadlaethau a gynhelir yn ystod yr wythnos. Mae nifer fawr wedi addunedu gwobrau eisoes gan ei fod yn ffordd hynod effeithiol i godi arian i'r Gronfa Leol oherwydd bod y cyfraniad yn mynd yn erbyn targed ardal y rhoddwr, ac mae llawer yn ei ddefnyddio i gofio neu anrhydeddu rhywun – tybed a oes ganddoch chi diddordeb mewn rhoi gwobr? Mae'n hawdd!

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Swyddfa'r Eisteddfod ar 0845 40 90 400, e bostio alwyn@eisteddfod.org.uk neu ymweld â'r wefan www.eisteddfod.org.uk. Cysylltwch cyn diwedd mis Ebrill er mwyn cynnwys y manylion yn y Rhestr Testunau. Ond peidiwch â phoeni os nad oes modd i chi wneud penderfyniad erbyn hynny; bydd digonedd o gyfle i gynnig gwobrau a chodi arian dros y 18 mis nesaf.



Cynhaliwyd Noson Wobrwy Ysgol Bro Pedr nos Fercher diwethaf. Y Gŵr Gwadd eleni oedd cyn-bennaeth yr ysgol Dylan Wyn. Yn y llun mae - o'r chwith- Vaughan Evans, Prif fachgen; Maer a'r Faeres Cyng Kistah a Carol Ramaya; Sioned Davies, Dirprwy brif ferch; Rhian Twynog, Cadeirydd y Llywodraethwyr; Dylan Wyn; Daniel Williams, Dirprwy prif fachgen; David Williams, Pennaeth a Cari Lake, Prif ferch.

Nid yw'r golygydd o reidrwdd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Cydnabyddir cefnogaeth



Ariennir gan
Llywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



EBRILL

- 5 – 13 'Lap o Gymru'.
- 6 Cinio Cadeirydd Siambr Fasnach Llanbed yn y Coleg. Tocynnau ar gael gan aelodau'r Siambr.
- 7 Cyrddau'r Gwanwyn yr Undodiaid yng Nghapel Cribyn am 1.30y.p.
- 7 Rihysal Cymanfa Ganu'r Undodiaid yng Nghapel y Groes. Plant a'r Ieuencid am 4.00y.p a'r Oedolion am 5y.p.
- 9 Pwyllgor Carnifal Cwmann yn Croesor, Cwmann 7.30yh.
- 13 Barbeciw a Adloniant yn Clwb Rygbi Llanybydder i groesawu 'Lap o Gymru' nôl i Llanybydder.
- 14 Rihysal Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr yn Noddfa am 2.00y.p.
- 14 Rihysal Cymanfa Ganu'r Undodiaid yng Nghapel Bwlch-y-fadfa. Plant a'r Ieuencid am 4.00y.p a'r Oedolion am 5y.p.
- 14 C.Ff.I Llanllwni yn cynnal taith tractor i ddechrau o T. L. Thomas, Llanllwni am 10.30yb i ddathlu pen-blwydd y clwb yn 70 mlwydd oed.
- 15 Gala Nofio C.Ff.I. Ceredigion.
- 15 Côr Corisma - Ymarfer.
- 17 Bingo Cymdeithas Amaethyddol Llanbed am 7.30 o'r gloch yn y Clwb Rygbi Llanbed.
- 19 C.Ff.I Llanllwni yn cynnal Tip-It yn y Talardd, Llanllwni i ddechrau am 7.30yh.
- 20 Cyngerdd Côr Meibion De Cymru gyda'r artistiaid Ina Morgan a Georgina Cornock-Evans yn chwarae'r delyn yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers.
- 21 Rihysal Cymanfa Ganu'r Undodiaid yng Nghapel y Bryn. Plant a'r Ieuencid am 4.00y.p a'r Oedolion am 5y.p.
- 26 Cyngerdd Côr Corisma, Ysgol Bro Pedr Iau, 7.00y.h. Arweinydd: Dylan Lewis. Artistiaid: Côr Corisma a Phlant Ysgolion Lleol. Pris : £10 yn cynnwys gwin a chaws.
- 27 Diwrnod Chwaraeon C.Ff.I. Ceredigion.
- 27 Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch ger Aberystwyth.
- 27 Bore Coffi yn Frongelli, Alltlyblaca am 10.00y.b. ymlaen.
- 28 Cymanfa Ganu yr Undodiaid yng Nghapel y Bryn, Cwrtnewydd am 2.00y.p a 5.30y.h.

MAI

- 3 Cneifio Llambod yn cynnal noson o Rasys Moch yng Nghlwb Rygbi Llambod am 7.30y.h. Dewch yn llw.
- 4 Eisteddfod Gadeiriol Capel y Fadfa Talgarreg Manylion gan Emyr ar 01545 590383 neu Enfys ar 01545 590295.
- 6 Calan Mai Cwrtnewydd. Ras Hwyl a nifer o stondinau eraill. Am fwy o fanylion cysylltwch â'r ysgol ar 01570 434273.
- 11 C.Ff.I Llanllwni yn cynnal It's a Knockout a Rhostio Mochyn i ddathlu pen-blwydd y clwb yn 70 mlwydd oed.
- 12 Cyngerdd Clasurol yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers yng nghwmni Mrs Perfect, gynt o Pantunos a Mrs Wilson, Cwmann am 3.30y.p.
- 12 Rihysal Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr - Bethel Cwm Pedol am 2
- 14 Pwyllgor Carnifal Cwmann yn Croesor, Cwmann am 7.30yh.
- 17 Noson Goffi dan nawdd Buddiannau Henoed Llanybydder yn Festri Aberduar am 7.00y.h. Croeso i bawb.
- 18 It's a Knockout a Ocsiwn i ddathlu 70 mlwydd oed C.Ff.I Llanllwni.
- 19 Cymanfa Ganu'r Bedyddwyr ym Methel Silian am 2.30 a 5.30y.h.
- 27 Carnifal a Mabolgampau Cwmann ar gae'r pentref am 12.30y.p. Ras hwyl 5 milltir a rasys plant ar gae Pentref Cwmann am 3.30y.p. a 4.30y.p.

MEHEFIN

- 7 Noson yng nghwmni Clive Edwards yn y Llew Du Llanybydder.
- 15 Rali C.Ff.I Ceredigion yn Nhalybont.
- 22 Aduniad Ysgol Pencarreg yn y Llew Du, Llanybydder.
- 23 Diwrnod o hwyl ym mharc Llanybydder - Twrnamaint rownderi i blant a thwrnamaint pel-droed yng ngwisg ffansi i'r oedolion (Pwyllgor Pentref Llanybydder).
- 29 Carnifal Llanybydder (Pwyllgor Pentref Llanybydder).

GORFFENNAF

- 13 Mabolgampau Blynnyddol Cwrtnewydd.
- 13 Côr Corisma - Taith Ddirgel.

AWST

- 10 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
- 17 Sioe Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog.
- 24 – 26 Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen, Llambod.

Cellan

Graddio



Llongyfarchiadau i Angharad Watkins, Murmur y Nant, Cellan am raddio gydag anrhydedd mewn Nysio Oedolion.

Priodas Ruddem

Yn ystod mis Mawrth dathlodd Lynn ac Enid Jones, Dolhyfryd eu Priodas Ruddem. Dymuniadau gorau i chi.

Gorsgoch

Gor-ŵyr

Llongyfarchiadau i Dannie a Martha Davies, Llaingors ar enedigaeth gor-ŵyr cyntaf iddynt. Ganwyd Aron Jac i Carys ei hwyres.

Silian


Dathlu'r Arian

Dathlodd Graham ac Owenna Uridge, Coedparc eu Priodas Arian ar ddechrau Ebrill. Iechyd da!!

Clwb Clonc

Ebrill 2013

- £25 rhif 171 :**
Mrs Hannah Evenden,
10 Heol-y-Waun, Capel Dewi,
Llandysul.
- £20 rhif 398 :**
Ieuan Roberts,
Madryn, Rhodfa Glynhebog,
Llambod.
- £15 rhif 387 :**
Arwel Rees,
Llys-y-Wawr, Llanllwni.
- £10 rhif 102 :**
Arwyn Davies,
Pentre, Llanfair Clydogau
- £10 rhif 118 :**
Emlyn Dudley,
Glyncoch, Maesyrugiau.
- £10 rhif 305 :**
Mrs Irene Jones,
Penarth, Heol-y-Bryn, Llambod.



Ruby Rose

**Bwtic anrhegion
a chartref hynafol.**

23 Stryd y Bont, Llanbed
01570 422359
rubyroselampeter@hotmail.co.uk

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion.
SA40 9XG

**Darparu gathau a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio**

Mwnici ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.
**Sioned Green
a Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod
01570 423135
07811917799 /
07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

Gwasanaethau Coed Teifi Tree Services



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth
Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,
Ffôn: 01558 650209 a 650451,
Ffacs: 01558 650440

**Masnachwyr coed
a nwyddau adeiladu
a ffensiō o bob math
Glo caled a glo meddal
o'r ansawdd gorau**

Llanfair



Grŵp Cerdded Llanfair

Ar brynhawn dydd Sul braf ac oer daeth dau ar bymtheg ynghyd i fynd i gerdded i Gwm Rhaeadr ger Cilycwm, un o drysorau Sir Gaerfyrddin. Roedd y rhaeadrau yn wych i'w gweld a'r dŵr yn yr afon fach mor glir â grisial. Diolch i Colin Adams, Brynheulo am drefnu ac arwain y daith ac i Arwyn, Pentre, Katy, Pandy a Julian, Fach Ddu am ddefnyddio eu moduron i'n cludo ni yno. Pleser mawr oedd cael gorffen y daith yn Nhafarn y Neuadd Fawr yng Nghilycwm lle cawsom groeso cynnes a diod twym ac oer i'n twymo neu dorri ein syched fel roedd angen. Mae pawb yn edrych ymlaen i'r daith nesaf.

Sefydliad y Merched

Dathlwyd Dydd Gŵyl Ddewi yn ein pentref trwy gynnal cawl a chwist. Daeth nifer dda ynghyd, digon i gynnal saith bwrdd ac enillwyr y noson oedd Eleri Davies, Pentre a Ieuan Thomas, Y Felin. Roedd y noson yng ngofal dwylo medrus Gwyneth Jones, Noyadd. Diolch i Eleanor, Nantymedd am ei gwaith yn paratoi cawl blasus ac i bawb a ddaeth â phwddin i'w rannu. Cafwyd noson hwylus dros ben.

Cydymdeimlad

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth annisgwyl Geraldine Maher, Bro Clywedog.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â'r plant a'r teulu oll. Daeth y newydd trist hefyd am farwolaeth Gwynfor Jones, gynt o Bwlchgwynt a oedd yn byw yn Brill yn Lloegr ers blynyddoedd lawer. Estynnwn ein cydymdeimlad â Ronnie, Mair a Caradog a'r teulu.

Gwellhad Buan

Cafodd Sara, merch fach ieuengaf Gareth a Dilys, Nantymedd ddamwain yn yr ysgol yn achosi

iddi dorri ei braich mewn dau fan. Mae ganddi nawr fraich binc hyfryd gyda phawb o'i ffrindiau wedi ei harwyddo. Gobeithio y bydd y fraich wedi gwella'n llwyr yn fuan.

Bowlio

Cafodd grŵp o fowlwyr brwd o Lanfair wahoddiad gan rai o aelodau Clwb Bowlio Llanbed i ymuno â nhw nos Sadwrn, Mawrth 23ain i chwarae gemau cymdeithasol. Mi aeth wyth o chwaraewyr o'r pentref i lawr a bu'r noson yn llwyddiant mawr. Er bod Llanfair â llai o brofiad, cafwyd sawl gêm ddiddorol ac yn ystod y noson roedd yn amlwg fod pob un wedi gwella eu gêm. Noson hwylus dros ben ac yn gyfle i gymdeithasu gyda chwmni da mewn lle gwahanol. Gobeithio y bydd cyfle eto i wneud rhywbeth tebyg yn y dyfodol.

Beth sydd nesaf?

Ebrill 20fed - Noson Cwis. Mai 10fed - Helfa Drysor. Mai 19eg - Cyngerdd Côr Cwmann yn yr Eglwys. Mehefin 21/22ain - Gŵyl Gwrw a Barbeciw. Gorffennaf 20fed - Fete Blynyddol.

gan Leah Kersey a Catrin Schröder.

Cynhaliwyd Eisteddfod Gylch yr Urdd yn ystod mis Mawrth, llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu a diolch o galon i bawb a fu wrthi yn helpu gyda'r paratoadau. Dyma'r canlyniadau:- Clodagh Dalton – 2il Llefaru bl. 2 ac iau. Nia Morgans – 1af Unawd bl. 3 a 4, 1af Unawd Cerdd Dant bl. 3 a 4 ac 2il Llefaru bl. 3 a 4. Lois Jones – 2il Cerdd Dant bl. 3 a 4. Hanna Davies – 2il Llefaru bl. 5 a 6, 3ydd Unawd bl 5 a 6, 3ydd Unawd Cerdd Dant bl. 5 a 6. Beca Jenkins – 3ydd Llefaru bl. 5 a 6. Owen Schröder – 1af Llefaru bl. 5 a 6 a 1af Unawd Pres bl. 6 ac iau. Elin Davies – 1af Alaw Werin bl. 6 ac iau a 1af Unawd Cerdd Dant bl. 5 a 6. Elin Davies a Hanna Davies – 3ydd Deuawd. Parti Unsain – 1af. Parti Llefaru – 1af. Cân Actol – 1af.

Dyma ganlyniadau Celf a Chrefft yr Urdd: Elan Jenkins – 1af Gwaith Creadigol 2D bl. 2 ac iau. Danny Waterman – 2il Gwaith Creadigol 2D bl. 3 a 4. Ffion Williams – 2il Cyfres o brintiau lliw bl. 3 a 4. Lleucu Rees – 3ydd Print Monocrom bl. 3 a 4. Hanna Davies – 2il Print lliw bl. 5 a 6. Owen Schröder – 3ydd Gwaith lluniadu 2D bl. 5 a 6.

Dymunwn pob lwc i Elan pan bydd ei gwaith celf yn cynrychioli Sir Ceredigion yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Mae Elin Davies wedi bod yng nghlwm gyda chystadleuaeth Cogurdd. Llongyfarchiadau mawr iddi hi gan ddod yn drydydd yn rownd Rhanbarthol Cymru. Cafodd y cyfle i gyfarfod â'r cogydd enwog Dudley Newbury gan taw ef oedd yn beirniadu.

Ar yr wythfed o Chwefror daeth pawb â'u hoff lyfr i'r ysgol. Aeth pawb o'r adran iau i lawr i'r ystafell gyfrifiaduron ac yna ysgrifennu crynodeb o'u hoff lyfr. Gwnaethom dudalen wybodaeth am yr awdur a pham yr oeddem yn hoffi'r llyfr. Adroddiad gan Hanna Davies a Caitlin Gibbons.

Daeth henoed plwyf Llanwenog i'n hysgol ni. Roedden ni wedi paratoi gwledd iddyn nhw. Gwelon nhw y gân actol, parti unsain, parti llefaru, canu unigol a llefaru unigol. Roedd pob un ohonynt yn ddiolchgar dros ben. Roedd y plant i gyd wedi mwynhau eu diddori ac roedd yr henoed yn wên o glust o glust. Adroddiad gan Liberty Watermam a Jenna Wilson

Cynhaliwyd Cystadleuath Trawsgwlad Cylch Llambled ar gae criced Llambled. Fel ysgol fechan rydym wedi cael tipyn o lwyddiant. Dyma'r canlyniadau Alaw Jones 3ydd, Lisa Jenkins 4ydd, Lois Jones 6ed, Caitlin Gibbons 13eg, Carwyn Davies 10fed, Catrin Schröder 9fed, Beca Jenkins 12fed, Hanna Davies 14eg, Madeleine Smith 9fed, Elin Davies 15fed, Arwel Williams 15fed, Zachary Wore 14eg, Owain Jones 10fed a Owen Schröder 15fed. Mae gan yr ysgol 7 disygbl yn mynd trwyddo i'r rownd nesaf yn Llangrannog. Felly pob lwc i'r disgyblion yma! Adroddiad gan Beca Jenkins, Ffion Williams a Carwyn Davies.

Cynhaliwyd y gystadleuaeth hoci yn ysgol Bro Pedr. Cyrhaeddodd ni'n barod i gystadlu ac yn llawn cyffro. Roedd y gêm cyntaf yn erbyn ysgol gynradd Pontsian. Cawson ni ddechrau da yn ennill o 5 gôl i 0. Yr yr ail gêm roedd Llanilar wedi ennill 2 a Chwrtnewydd 1. Yn y trydydd gêm roedden ni yn erbyn Penrhyncoch. Yn anffodus fe wnaethom golli 2 i 1. Ond cafwyd bore da o gystadlu. Adroddiad gan Arwel Williams a Zachary Wroe

Daeth heddwas mewn i weld plant yr ysgol gyfan. Ei enw oedd Simon Griffiths. Roedd e'n siarad am bobl sy'n ein helpu ni. Roedden ni wedi cael llawer o wybodaeth a gwnaethom lawer o weithgareddau. Un o'r gweithgareddau oedd ymarfer ffonio 999 ar ffôn symudol.

Adroddiad gan Nia Morgans, Lisa Jenkins a Nathaniel Wroe

Aeth disygbl o'r ysgol sef Macy Symmonds i Ysgol Uwchradd Aberaeron am y dydd fel rhan o'r broses bontio rhwng ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd. Roedd hi wedi mwynhau y profiad yn fawr iawn. Adroddiad gan Lois Jones ac Alaw Jones.

Cynhaliwyd ein Pigion Pasg yn neuadd yr ysgol. Braf oedd gweld y plant yn rhoi o'u gorau unwaith eto. Cafwyd cwpaned o de a chacen siocled a oedd wedi cael eu paratoi gyda'r plant.

Cafodd pawb gyfle i gymdeithas a chael clonc ar ddiwedd y noson.

Cafwyd ymweliad gan PCSO Eleri Morgan a Helen Evans i'r ysgol. Cafodd y plant gyfle i gael sgwrs ac ymweld â'r fan heddlu ar iard yr ysgol. Buon nhw yn trafod diogelwch ar y ffyrdd a diogelwch yn ystod gwyliau'r Pasg.



Cylch Ti a fi Cwrtnewydd

Bu 'na gyffro mawr yn sied y defaid ar fferm Blaenhirbant yn ddiweddar pan fu plant Cylch Ti a Fi Cwrtnewydd yn ymweld. Gyda phawb wedi eu gwisgo'n gynnes roedd y plant wrth eu bodd yn gweld yr ŵyn bach. A do wir i chi, gwelsom oen bach yn cael ei eni – roedd wynebâu'r plant bach yn werth eu gweld! Hoffwn ddiolch i Dewi a Sian am y prynhawn braf a gawsom ar eu fferm.

Fe wnaeth y plant fwynhau mas draw wrth iddynt chwilio am wyau Pasg o amgylch yr ysgol; roedd gwên fawr ar wyneb pob plentyn.

Dymuna'r Cylch ddiolch o galon eleni eto i Bwyllgor Mabolgampau Cwrtnewydd am eu rhodd hael.

Cwrtnewydd

Diolch

Dymuna Gareth Lloyd, Ucheldir ddiolch i bawb am y consymr a ddangoswyd tuag ato adeg ei anhwylder yn ddiweddar. Gwerthfawrogi y cyfan oll.

Gwellhad Buan

Bu Mrs Dilys Davies, Clarence yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Glangwili yn dilyn anffawd adref yn ddiweddar.

Hefyd bu Carwyn Davies, Coedlannau Fach hefyd yn Ysbyty Glangwili yn derbyn triniaeth ar ddechrau gwyliau'r ysgol.

Gobeithio y byddwch eich dau ar wellhad yn fuan.

Ysgol Cwrtnewydd

Yn ystod tymor y Gwanwyn aeth yr ysgol i gartref yr henoed Alltymynydd yn Llanybydder.

Buon ni yn canu amrywiaeth o ganeuon yn cynnwys eitemau'r Urdd. Hefyd fe wnaethom lefaru. Roedd pawb wedi mwynhau a braf oedd gweld gwên ar wynebâu'r hen bobl. Roedd pawb yn ddiolchgar am y lluniaeth ysgafn. Cawson ni hwyl yn canu a diolch i'r hen bobl am ein gwahodd ni i'w cartref. Adroddiad

YSWIRIANT FUW

**Yswiriant Fferm,
Busnesau, Ceir a Thai**



Arbenigedd lleol
Polisiau at bopeth
Prisiau cystadleuol

Dewch i drafod eich anghenion gyda

Alan Jacob 07968 371823 / 01570 481361

neu

Gwion James 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa Yswiriant FUW,
Sgwar y Mart, Llanybydder

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei sefydlu'n ddiwyddiaeth ariannol, yn rhyng-ddeddfu cyfngyng yswiriant, o dan Rhif Cofrestru 309535

PLANHIGFA GRANNELL NURSERY

Capel y Groes,
Llanwnnen
SA48 7LE

01570 434548

www.grannell-nursery.co.uk

Planhigion llysiau, lluosflwydd,
blodau'r haf a'r gaeaf, perlyisiau,
coed ffrwythau a mwy!

Dydd Mawrth i Ddydd Sadwrn
10yb ~ 5yp

Dydd Sul 10yb ~ 4yp

Ar gau Dydd Llun heblaw Gŵyl y Banc

COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa



Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambled, Heol Tregaron,
Llambled.

☎ 01570 422955

☎ 01570 422232

Cludfwyd Indiaidd NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o
weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambled
☎ 01570 422893 / 422175

CANOLFAN ADDURNO AA

A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwyn, Offer llaw a
phwcrus, Polion a thraciau llenwi,
gwasanaeth torri allwedd a
plethriamau cynysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llambled Pont Steffan
01570 423156

Cwmann



Rhai o ddisgyblion Ysgol Carreg Hirfaen yn eu coch ar gyfer Diwrnod y Trwynau Coch.

Diolch

Hoffai Beca Creamer, Brooklands
ddiolch o galon i bawb am yr holl
gardiau, anrhegion a dymuniadau
da a dderbyniodd ar achlysur ei
phen-blwydd yn ddeunaw oed yn
ddiweddar.

Côr Meibion Cwmann a'r Cylch

Nos Sadwrn Mawrth 9fed
cynhaliwyd cinio blynyddol y
côr yn y Grannell, Llanwnnen
yng nghwmni y llywydd Mr Alun
Williams a'i wraig. Yn dilyn gras
gan y Parchedig Aled Williams,
mwynhawyd y wledd gan tua
thrigain o'r aelodau a'u gwagedd.

Ar ôl y bwyd soniodd y cadeirydd,
Mr Cyril Davies, bod y noson hon
yn rhoi cyfle i ddiolch i ddau aelod
am wasanaeth hir ac arbennig iawn
i'r côr, sef Mr Arthur Roderick a
Mr Eric Williams. Dywedodd bod
y ddau yn aelodau gwreiddiol o'r
côr pan gafodd ei ffurfio yn 1964
ac maen nhw wedi bod mewn
gwahanol swyddi dros gyfnod
maith. Roedd y ddau wedi rhoi'r
gorau i'w swyddi yn y cyfarfod
blynyddol ym mis Ionawr, Arthur
fel cadeirydd dros y 30 mlynedd
diwethaf ac Eric fel ysgrifennydd
dros y 23 mlynedd diwethaf. I
ddangos gwerthfawrogiad y côr
am eu gwaith diflino cyflwynwyd
iddynt darianau a penillion personol
wedi eu fframio – y geiriau gan Mr
Aeron Davies, Felinfach, cyn aelod
o'r côr. Darllenwyd y penillion
gan Mr Ken Lewis yr is-gadeirydd.
Rhoddwyd blodau i'r ddwy wraig
a rhoddion i Mrs Elonwy Davies,
yr arweinyddes, ac i Miss Elonwy
Pugh, y gyfeilyddes.

Yn dilyn cafwyd cwis wedi ei
baratoi gan Mr Rob Phillips, yr
ysgrifennydd a Mr Rhys Bebb
Jones, ond 'roedd pawb wedi bwyta
gormod i wneud cyfiawnder â'r
dasg! Daeth y noson i ben gyda
thipyn o ganu – beth arall byddech
yn ei ddisgwyl gan gôr!

Ysgol Carreg Hirfaen

Cafodd disgyblion blynyddoedd
5 a 6 y cyfle i gymryd rhan mewn
gweithdy drama gyda chwmni Arad
Goch a gyflwynwyd yn Neuadd Sant
Iago, Cwmann ym mis Chwefror.
Thema'r gweithdy oedd 'Gwneud
eich gorau a pheidio rhoi fyny.'

Cynhaliwyd Traws-gwlad Cylch
Llambled ar Fawrth 15fed a braf
oedd gweld bron pob plentyn yng
nghyfnod allweddol 2 yn cymryd
rhan a chynrychioli'r ysgol. Enillodd
yr ysgol bump o'r wyth ras, felly
llongyfarchiadau mawr iddynt.
Dyma'r canlyniadau.

Bechgyn blwyddyn 3 - Sion Aled
– 1af; Iestyn Plant 7fed.

Merched blwyddyn 3 - Seren
James - 1af; Mali Jones – 2il;

Bechgyn blwyddyn 4 - Dafydd
Jones – 4ydd; Scott Griffiths – 7fed.

Merched blwyddyn 4 - Lowri Fflur
Davies – 7fed; Gwennan Rowcliffe-
10fed.

Bechgyn blwyddyn 5 - Daniel Ifan
Jones – 1af; Llywelyn James – 3ydd;
Tomas Morgans – 10fed.

Merched blwyddyn 5 - Beca Mai
Roberts – 1af; Lowri Aur Davies
– 4ydd; Elin Williams – 7fed.

Merched blwyddyn 6 - Chelsea
Jenkins – 1af; Chloe Jones – 4ydd;
Shannon Jones – 10fed.

Pob lwc i bawb wrth iddynt fynd
ymlaen i gynrychioli cylch Llambled
yn y sir ddechrau mis Mai.

Cafodd yr ysgol lwyddiant
arbennig yng nghystadlaethau
Traws-gwlad Dyfed yn ystod y mis.

Daeth Beca Mai Roberts yn
bedwerydd yn ras B1 5 a Daniel Ifan
yn nawfed yn ei ras ef.

Llongyfarchiadau i'r canlynol am
redeg yn wych yn y tywydd garw:
Sion Aled, Mali Jones, Dafydd
Jones, Gwennan Rowcliffe, Scott
Griffiths, Lowri Aur, Chelsea
Jenkins a Naomi Howell.

Bu plant yr ysgol yn brysur
iawn yn cystadlu yn yr Eisteddfod
yn ystod y mis. Cafwyd cystadlu
brwd yn ein heisteddfod ysgol a
gynhaliwyd yn neuadd Bro Fana

Ffarmers ar Fawrth 1af. Agos iawn
oedd y cystadlu ond Teifi a gipiodd
tlws y tŷ gorau ar ddiwedd y dydd.
Enillwyd Cadair CA2 a'r darian am
y gwaith Saesneg gorau gan Lisa
Elan Evans, Cadair CA1 gan Elen
Jones a Chadair newydd i blant
blynyddoedd 3 a 4 gan Lowri Fflur
Davies. Enillwyr yr unigolion â'r
pwyntiau uchaf oedd Mali Jones
yn CA2 ac Elen Jones yn y Cyfnod
Sylfaen. Llongyfarchiadau mawr i
bawb.

Bu plant yr ysgol yn cystadlu
yng nghystadlaethau Celf yr Urdd
a chafwyd llwyddiant gyda gwaith
argraffu blwyddyn 2. Cafodd Rory
Blyth y wobwr gynta, Abi Guest yr
ail wobwr ac Osian Kersey y drydydd
wobwr. Hefyd llongyfarchiadau i
Sion Harrhy am ddod yn gyntaf am
brint monocrom. Bydd gwaith Rory
a Sion yn awr yn mynd ymlaen i'r
Genedlaethol. Dymunwn bob lwc
iddyn nhw.

Prysur hefyd oedd ein disgyblion
yn Eisteddfod yr Urdd cylch
Llambled. Enillodd y parti unsain,
daeth y côr yn ail, y parti llefaru yn
drydydd a'r grŵp dawnsio disgo
yn bedwerydd. Cawsom lwyddiant
gyda'r unigolion hefyd gyda Beca
Ann Jones yn gyntaf yn y canu i
blant blwyddyn 5 a 6 a Bea Blyth yn
gyntaf yn y chwythbrennau. Pob lwc
i'r parti unsain, Bea Blyth a Beca
Ann Jones yn Eisteddfod Sir yr Urdd
ym Mhont-rhyd-fendigaid ddiwedd
y mis.

Roedd hi'n ddiwrnod trwyn coch
(Comic Relief) ddydd Gwener y
15fed o fis Mawrth. Gwisgodd y
disgyblion a'r staff ddillad coch
i'r ysgol a chodwyd cyfanswm o
£200. Bydd yr arian yn mynd at
Apêl Elain- achos haeddiannol iawn
sydd wedi codi arian tuag at nifer
o elusennau ac achosion megis
Ambiwylans Awyr Cymru, Tŷ Hafan
a Ward Angharad, Ysbyty Bronglais.
Diolch i bawb a gefnogodd.

Hoffwn ddiolch i Meinir Evans am
ddod atom i'n Clwb Urdd i rannu ei
phrofiadau am deithio'r byd. Braf

oedd cael gweld yr holl luniau a chlywed am yr holl straeon.

Derbyniodd ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen blac arian am frwsio dannedd yn yr ysgol dan Gynllun Gwên Sir Gaerfyrddin. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch a chofiwch barhau i frwsio eich dannedd.

Cynhaliwyd noson Gymreig hyfryd ym mis Mawrth yn Neuadd Cwmann yng nghwmni plant yr ysgol ac Erwyd Howells. Cawsom gawl blasus gan Joan, eitemau wrth blant yr ysgol a llawer o hwyl a sbri yn dawnsio yn y twmpath. Diolch i bwyllgor rhieni ac athrawon yr ysgol am drefnu noson lwyddiannus tu hwnt ac i holl rieni'r ysgol a fu yn helpu gyda'r paratoi.

Bu tîm rygbi hŷn yr ysgol yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth rygbi Ceredigion ddechrau'r mis. Roedd deg chwaraewr o flynyddoedd 5 a 6 yn y garfan, saith ohonynt yn chwarae mewn gêm gystadleuol gorfforol am y tro cyntaf. Roedd dwy o'r garfan yn ferched hefyd. Gorffennodd Carreg Hirfaen yn drydydd yn ein grŵp.

Bu heddwas yn yr ysgol yn ddiweddar yn siarad â disgyblion y Cyfnod Sylfaen am ddiogelwch.

Bu disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn treulio cyfnodau wythnosol yn Ysgol Gyfun Bro Pedr fel rhan o'u gwaith thema ar Her F1. Buont yn cynnal ymchwiliadau gyda'r Adran Wyddoniaeth ac yn treulio amser yn yr Adran Dechnoleg yn cynllunio a chreu eitemau gwahanol trwy ddefnyddio 'lazer cutters' meddalwedd Cad Cam, 'textile printers' a'r 'milling machine'. Elwodd y plant yn fawr iawn o'r profiad gan gynhyrchu gwaith penigamp.

Erbyn i chi ddarllen Clonc bydd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 wedi bod ar ymweliad preswyl i wersyll yr Urdd, Caerdydd. Cewch glywed yr hanes yn y rhifyn nesaf.

Côr Corisma

Bu mis Mawrth yn fis prysur iawn i Gôr Corisma. Ddechrau'r mis, buom ym Myddfai, ardal sy'n gyfoethog o ran chwedlau a hanes, yn diddanu mewn noson gymdeithasol o Gawl a Chân. Roedd hi'n bleser cael perfformio mewn canolfan gymdeithasol newydd.

Cafwyd noson hwyliog iawn mewn cymuned weithgar a chroesawgar.

Yn hwyrach yn y mis, buom yn diddanu'n agosach adref yng Ngŵyl Gerddoriaeth Gysegredig y Byd yn Neuadd Fictoria, Llambled. Roedd hi'n noson amrywiol iawn gyda phawb yn perfformio ac yn dathlu cerddoriaeth yn eu ffyrdd unigryw eu hunain. Bydd y noson yn aros yn ein cof am sbel.

Ar 26 Ebrill 2013, byddwn yn

cynnal noson o ganu, gwin a chaws yn Ysgol Bro Pedr Iau am 7 yr hwyr. Bydd yr elw'n mynd at Ymchwil y Galon a Chôr Corisma. Arweinydd y noson bydd Dylan Lewis, a'r artistiaid fydd Côr Corisma a phlant ysgolion lleol.

Pris y tocyn yw £7. Archebwch eich tocyn yn gynnar oddi wrth aelodau'r Côr rhag ofn i chi gael eich siomi!

Diolch

Dymuna Glesni a'r teulu, 1 Heol Hathren ddiolch o galon am bob arwydd o cydymdeimlad a charedigrwydd ddangoswyd tuag atynt wedi colli mam a mam-gu annwyl yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

Dymuna Joan Davies, 38 Heol Hathren ddiolch am y blodau, cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar farwolaeth ei brawd David yn Lerpwl.

Penblwyddi Arbennig

Dathlodd Eric Williams, Y Fedw ei ben-blwydd arbennig yn 80 oed.

Hefyd, Mattie Williams, Ddeunant Hall yn 70 oed ac yna Beca Creamer, Brooklands yn 18 oed. Llongyfarchiadau a gobeithio eich bod wedi mwynhau eich diwrnodau arbennig.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad â theuluoedd Mrs Eirwen Davies, Ffawydd a fu farw yn ddiweddar.

Clwb 125 Mis Mawrth Neuadd Sant Iago

1. Mrs Lena Williams, 39 Heol Hathren, Cwmann, 22; 2. Mrs Eleri Davies, 13 Heol Hathren, Cwmann, 68; Mr & Mrs Brewnand, Pant-unnos, Cellan, 101; 4. Miss Angharad Price, Brynderi, Cwmann, 33; 5. Mrs Elizabeth Warmington, Falkland, Bryn Rd, Llambled, 85; 6. Stephanie James, 15 Bro Llan, Llanwnnen, 141; 7. Mr Bernard Hardy, Cwrt Deri, Cwmann, 69; 8. Mrs Rosa Lloyd, 8 Heol Hathren, Cwmann, 92; 9. Mr Stanley Evans, Coed y Waun, Parc-y-rhos, Cwmann, 107.

Clwb 225 Mis Mawrth

1. Carwyn Lewis, 18 Heol

Hathren, Cwmann, 83; 2. Miss Rhian Lloyd, Hafod, Cwmann, 152; 3. Alan Morgan, Haulfryn, Cwmann, 19; 4. Miss Carol Powell, Penbryn, Cwmann, 142; 5. Mr & Mrs Wynford Edwards, Ddeunant, Cwmann, 173; 6. Aneurin Davies, Tŷ Capel, Parcyrrhos, 188; 7. Mr Eifion Davies, Four Winds, Cwmann., 35; 8. Mrs Gwen Jones, Gellidewi Uchaf, Cwmann, 89; 9. Donald a Helen Thomas, Ty Hathren, Cwmann, 43; 10. Dafydd Lewis, Pantmeiniog, Cwmann, 194.

Sefydliad y Merched

Croesawodd Morfudd Slaymaker, y Llywydd, bawb i gyfarfod mis Mawrth i ddathlu Gŵyl Ddewi yn y Ganolfan. Cafwyd adloniant gan Elan Jones o Gwmann a fu'n canu a llefaru. Yn anffodus, methodd Ella Evans ddod oherwydd salwch. Diolchodd Gwen Jones i Elan am ein diddanu mor hyfryd a chyfeiriodd at ei dawn arbennig gan ddymuno pob lwc iddi yn y dyfodol. Estynnodd ddiolch hefyd i Llinos, mam Elan a fu yn ei chyflwyno ac hefyd i Carys Lewis a oedd yn cyfeilio. Ar ôl yr adloniant cafwyd cawl, tarten afalau a phwdin reis wedi eu harlwygo gan Sirian Davies, Cegin Coedlannau. Dilynwyd hynny gan gwaned o de, pice bach a bara brith. Diolchodd Morfudd i Sirian ac i Gwyneth am drefnu'r noson. Enillwyd y raffl gan Irene Price, Gwyneth Morgan, Morfudd Slaymaker, Helena Gregson, Glesni Thomas a June James. Cafwyd cyfarfod byr am fusnes y gangen a dymunodd Morfudd wellhad buan i Brenda Morgan.

Ras Hwyl Carnifal Cwmann Dydd Llun Mai 27ain 2013

Ras y plant 3.30y.p.: Cynradd - 800m ac uwchradd lan i 150ed - 1500m

Ras yr oedolion 4.30y.p.: 5 milltir

Cyfraniadau tuag at "RUNNING WITH NANCY" CYSTIC FIBROSIS



Cerddwyr Cwmann o dan arweiniad Phillip Lodwick a fu'n codi arian i Sefydliad Aren Cymru.

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad, Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriel a Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works,

Stryd y Fro, Aberaeron

gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org



Heol Caerfyrddin
Llanybydder
Sir Gaerfyrddin

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth, Heol Pontfaen, Llambled
Ffon: 423300 Facs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol

Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan, beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS

ARMS



Bwyd cartref ardderchog nos iau, Gwener a Sadwrn, Prydiau mewn basged ar gael bob nos.

Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig gan Berian a Beverley Wilkins a'u merchod.

Cellan, Llambled

01570 422895

Dyma ein rhifyn cyntaf ni'n dau fel Aelod Hŷn ac Aelod Iau newydd CFFI Ceredigion – ni yw Gwennan a Carwyn y ddau ohonom yn aelodau o Glwb Llanwenog ac rym ni'n dau yn edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod! Os gallwn ni fod o unrhyw gymorth i unrhyw aelod neu glwb yn ystod y flwyddyn, wedyn rhwch wbo! Diolch i Mererid a Cennydd am sicrhau bod newyddion ein sir yn cael ei weld yn fisol drwy gyfrwng y papurau bro.

Gwledd o Adloniant

Cynhaliwyd penwythnos gwyh adeg ffeinal y Ddrama Gymraeg a Saesneg yn Theatr y Grand, Abertawe ar yr 2il a'r 3ydd o fis Mawrth. Cafwyd perfformiad gwyh gan fuddugwyr ein sir ni sef CFFI Llanddewi Brefi gyda'u cynhyrchiad cofiadwy o 'Nyth Cacwn' -llongyfarchiadau calonnog ar ddod yn gydradd 2il ar lefel Cymru. Llongyfarchiadau mawr i GFFI Llanwenog ar ddod yn 3ydd gyda'i sgets bachog 'Y Safle Bws' yn y gystadleuaeth newydd 'Amser i Serennu'. Yn ystod y penwythnos hefyd cynhaliwyd cyfweiliadau Aelod Hŷn ac Iau CFFI Cymru a llongyfarchiadau i Gwennan ar gipio teitl yr Aelod Hŷn – mi fydd hi nawr yn cynrychioli Cymru ar y lefel genedlaethol yn Blackpool ddechrau mis Mai. Penwythnos cofiadwy i'r Sir!

Dawns Dewis Swyddogion

Nos Iau y 7fed o fis Mawrth cynhaliwyd cyfweiliadau ar gyfer dewis y Frenhines, Ffermwr Ifanc a'r Morwynion newydd ar gyfer 2013-2014. Roedd y beirniaid wedi eu syfrdanu gan allu ac ymrwymiad yr ymgeiswyr i'r mudiad. Mae'n amlwg fod gan y Sir aelodau brwdfrydig sy'n gweithio'n galed ac yn mwynhau eu hunain! Ar y nos Wener cynhaliwyd y ddawns yng Ngwesty Tŷ Glyn, Ciliau Aeron gyda Paul Dark yn ein diddanu – llongyfarchiadau mawr i Mererid Davies y Frenhines o GFFI Pontsian, Arwel Jenkins y Ffermwr Ifanc o GFFI Llanwenog ac i'r morwynion Luned Mair Llanwenog, Gwawr Thomas Pontsian, Nia Medi Jones Llanddewi Brefi a Bethan Fflur Roberts Mydroilyn. Edrychwn ymlaen i'ch gweld ar lwyfan Rali Talybont ar y 15fed o fis Mehefin. Cyn y Rali mi fyddwn yn cynnal 'Fforwm y Swyddogion' lle bydd y swyddogion presennol yn trosglwyddo'r awenau, yn trafod dyheadau ac yn rhannu profiadau'r flwyddyn a fu er mwyn sicrhau ein bod yn weithredol yn ein swyddi ac yn symud

ymlaen.

Cymanfa'r Frenhines a'r Ffermwr Ifanc

Yng Nghapel Glynarthen ar y 10fed o fis Mawrth cynhaliwyd Cymanfa Llion a Gwennan a'r morwynion dan arweiniad Ellen Angharad Jones a Rhian Evans wrth yr organ. Daeth dros 200 o gantorion ynghyd i fwynhau noson hamddenol o ganu a diolch i GFFI Troedraur a Llanwenog am eu heitemau ac i'r morwynion am eu darlleniadau. Cafwyd gwledd wedi'r canu yn y festri a diolch i fenywod y Capel am weini'r bwyd a'r te. Casglwyd swm anrhydeddus iawn o dros £800.00 tuag at Tîm Ymateb Aciwt Ceredigion. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Siarad Cyhoeddus Cymraeg a Saesneg Cymru

Pob dymuniad da i holl aelodau CFFI Ceredigion! Mi fydd y canlyniadau yn rhifyn mis nesa.

Clwb 200

Mis Chwefror: 1af CFFI Felinfach, 2il CFFI Bryngwyn, 3ydd CFFI Talybont

Mis Mawrth: 1af Dai a Gwen Gwarffynnon, 2il – Adrian Coulbourne Anor Ffostrasol, 3ydd – Mrs H.M Davies Maesronw Bangor Teifi Llandysul.

Digwyddiadau

Ebrill 10fed – Cyfarfod cyntaf Is-bwyllgor Eisteddfod CFFI Cymru Ceredigion 7.30pm Tafarn y Vale, Ystrad Aeron

Ebrill 10fed – Noson Hyfforddi Barnu Wŷn Tew – (Lleoliad i'w Gadarnhau)

Ebrill 12fed – Tafarn y Mis – Peint a Chwis yn y Talbot, Tregaron

Ebrill 13eg – Cerdded mynydd Pumlumon gyda Chadeirydd CFFI Cymru, Gwenno Griffith, yn rhan o'i sialens i gasglu arian ar gyfer Ymchwil y Galon; yn dechrau am 10.30yb o Eisteddfa Gurig.

Ebrill 15fed – Gala Nofio'r Sir – Pwll Nofio Aberaeron

Ebrill 17eg – Pwyllgor Gwaith y Sir

Ebrill 20fed – Diwrnod Maes CFFI Cymru Rhuthun

Ebrill 27ain – Chwaraeon y Sir – Campws Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan

S4/C Calon Cenedl
Heart of the Nation

Newidiadau'r Gwanwyn

O 22 Ebrill bydd newidiadau i'n hamserlen



Stwnsh

5.00
Llun –
Gwener

Gyda hanner awr ychwanegol o Stwnsh bydd mwy fyth o raglenni gwyh i bobl ifanc bob diwrnod ar S4C.



R a R

7.30
Mawrth
a Iau

Mae'r ddrama sebon boblogaidd, Rownd a Rownd yn symud i slot hwyrach yn yr amserlen yn ystod yr wythnos. Cyfle felly i'r holl deulu fwynhau helyntion diweddaraf trigolion y pentref.



Heno

7.00
Llun –
Gwener

Bydd rhaglen awr o Heno ddwywaith yr wythnos, ar nos Lun a nos Wener er mwyn dod a mwy o gymysgedd difyr a hanesion o bob cwr o Gymru i'r sgrin.



Newyddion
9

9.00
Llun –
Gwener

Mae golwg, ffurf ac amser newydd i Newyddion S4C. Bydd bwletinau cyson yn ystod y dydd a'r brif raglen am 9. Bydd Newyddion 9 yn wasanaeth cynhwysfawr sy'n adrodd y newyddion sy'n bwysig i ni yng Nghymru – yn lleol, yn genedlaethol, a'r tu hwnt.

Cofiwch ein hoffi ni ar Facebook neu'n dilyn ni ar Twitter er mwyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am ein rhaglenni, i weld clipiau rhagolwg a manylion am ddigwyddiadau.

facebook.com/s4c.co.uk
@S4C

Mae croeso i chi cysylltu â Gwifren Gwylwyr S4C i leisio eich barn am ein rhaglenni.

0870 600 4141
(ni ddylai galwad gostio mwy na 6c y funud o linell BT)
gwifren@s4c.co.uk

Drefach a Llanwenog



Disgyblion Ysgol Llanwenog yn gwisgo dillad coch ar gyfer Diwrnod y Trwynau Coch.

Ysgol Llanwenog

Cynhaliwyd Eisteddfod flynyddol Ysgol Llanwenog ar Fawrth y cyntaf. Bu'r plant yn brysur iawn drwy'r prynhawn yn cystadlu'n frwd. Cafwyd cystadlaethau megis llefaru, canu, canu offeryn, partïon amrywiol ac eitem ysgafnach ei naws, sef cystadleuaeth dweud jôcs. Uchafbwynt yr Eisteddfod oedd seremoni cadeirio'r bardd buddugol. Roedd y gadair yn rhoddedig eto eleni gan Mrs Enfys Morgan ac fe'i cipiwyd gan Osian Davies, Fronheulog, Llanwenog. Daeth Isobel Evans yn ail a Josh Hargreaves yn drydydd. Ysgrifennodd Osian gerdd am un o enwogion Cymru sef Jonathan Davies y cyn chwaraewr a'r sylwebydd rygbi. Dyma'r gerdd:

Jonathan Davies

Personoliaeth llon a dewr fel achubwr bywyd proffesiynol, Dillad smart a golygus fel dyn mewn sioe ffasiwn. Corff cyhyrog fel llewpard gwyllt. Gwallt pigog fel draenog direidus, Meddwl cyflym a chwm fel arwerthwr ceir profiadol. Ochr gamwr fel dawnsiwr dawnus, Dannedd gwyn a del fel cwmwl disglair yn yr haf. Aeliau brown a thenau fel cadno slei. Cyflwynydd deallus a gwybodys yw hwn.

Ysgol Llanwenog oedd yn gyfrifol eleni am drefnu Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Llanbed. Gweithiodd y staff yn galed iawn dan arweiniad Miss Heddwyn Davies a chafwyd diwrnod llwyddiannus iawn yn Ysgol Bro Pedr. Cipiodd Parti Unsain yr Ysgol yr ail wobwr a daeth Florian Van Ostade yn ail hefyd am lefaru. Diolch i Mrs Eirlys Jones am eu hyfforddi a diolch i Mrs Elonwy Davies am gyfeilio.

Bu'r plant hefyd yn brysur yn creu ar gyfer cystadleuaeth gelf yr Urdd. Ymatebodd y plant yn wych i'r

sialens a daeth cynnyrch gwreiddiol a safonol i law. Daeth llwyddiant sirol i Chloe Marie Jones yn yr adran collage a lluniadu lle enillodd y wobwr gyntaf ac mae ei gwaith wedi mynd ymlaen nawr i'r gystadleuaeth genedlaethol yng Nghymrych.

Bu plant y Cyfnod Sylfaen yn ymweld ag Eglwys Santes Gwenog fel rhan o'u hastudiaethau. Daeth Ficer Suzy i gwrdd â'r plant yn yr Eglwys. Diolch yn fawr iawn iddi.

Dathlwyd 'Diwrnod y Trwyn Coch' yn yr ysgol trwy wisgo dillad sgarlad a bu'r plant yn mwynhau gweithgareddau gwahanol dan ofal Mrs Nerys Vobe. Casglwyd £30 at elusen 'Comic Relief'.

Bu plant yr Adran Iau yn cymryd rhan yn ras rhedeg traws gwlad ysgolion ardal Llanbed a drefnwyd gan staff Ysgol Bro Pedr. Cafwyd prynhawn da o gystadlu a daeth Molly Greenfield yn gyntaf yn ras y merched ar gyfer plant blwyddyn 4. Llongyfarchiadau mawr iddi.

Cynhaliwyd cyfarfod y Cyngor Ysgol yn ystod y mis ac un o'r penderfyniadau oedd rhoi £73 at elusen Gancr Tenovus.

Croesawyd dau ddisgybl newydd yn ôl i'r ysgol sef Dafydd a Ceinwen Lloyd, gobeithio y byddant yn hapus iawn yn Llanwenog.

Hoffem eich hysbysu am noson lansio llyfr a fydd yn cael ei chynnal yn Ysgol Llanwenog nos Fercher, Ebrill 24ain am 7 o'r gloch. Bydd

Mrs Barbara Davies yn bresennol i lofnodi ei llyfr 'Faciwi'. Symudodd Barbara i fyw yn yr ardal o Lerpwl nol yn 1941 a bu'n dysgu yn ysgol Llanwenog am dros naw mlynedd cyn mynd yn athrawes i ysgol Llandysul. Croeso i bawb ddod draw i'r ysgol ar y noson uchod. Cewch gyfle i glywed rhai eitemau gan y plant a chyfle i gael paned a sgwrs yn ystod y lansiad. Edrychwn ymlaen i gael eich cwmni.

Clwb Cant

Ionawr 2013

1af Rhif 14 Sion O'Keeffe; 2ail Rhif 19 Karin Ayonoadu; 3ydd Rhif 5 Huw Morgans

Chwefror 2013

1af Rhif 15 Niall O'Keeffe; 2ail Rhif 11 Tina Potter; 3ydd Rhif 10 Shirley Davies.

Mawrth 2013

1af Rhif 28 Carys Jones, Awelon; 2ail Rhif 21 Steffan Rivers; 3ydd Rhif 9 Sam Lewis.

Diolch

Dymuna Ann a Gordon, Maes yr Onnen, Drefach, ddiolch o galon am bob cymorth a chydymdeimlad a ddangoswyd iddynt ar farwolaeth Roy Middleton, tad a thad yng nghyfraith annwyl iawn. Diolch hefyd am bob cyfraniad ariannol a dderbyniwyd. Rhannwyd £380 rhwng y Lleng Brydeinig a Chlwb Cledlyn. Diolch yn fawr.

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llanbed
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(fotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Dantethion i de

* Pwdinau

* Arlwy ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045



Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin

* Sciatica

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems

* a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees

01545 590164

07929 559561

Cwm Mawr
-fireplaces-

DYDD AGORED

Dydd Sadwrn y 13eg o Ebrill

Meddwl am le tân newydd? Neu falle wyneb gweithio
"Granite" newydd i'r gegin? Dewch i weld beth sydd gyda ni
i'w gynnig yn Cwmmawr.

Gostyngiad o 20% ar unrhyw archeb ar y dydd.

Cwmmawr Uchaf, Cwrtnewydd, Llanybydder, Ceredigion.
SA40 9YS.

Ffôn: 01570 434319.

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Drefach a Llanwenog



CFFI Llanwenog

Cinio blynyddol C.Ff.I. Llanwenog a gafodd ei gynnal yn y Plough, Rhosmaen ym mis Ionawr. Meirir Jones, Maesteilo o'dd y siaradwraig wadd, ac yn y llun mae aelodau'r clwb, Meirir, Evan David (Llywydd) a Pugh a Rhiannon Jones (Is-Lywyddion).

Meirir Davies, enillydd cwpan coffa Iestyn Gruffydd am yr aelod mwya' gweithgar yn y clwb o dan 16, a Luned Mair enillydd cwpan coffa Albert Evans am yr aelod mwya' gweithgar o dan 26.

C.Ff.I Llanwenog

Ar y 4ydd o Fawrth, caswom llond ein bol o gawl blasus yn nhafarn Cefn Hafod. Noson o gymdeithasu a joio a rhoi'r byd yn ei le!

Ar Fawrth 11eg, aeth y clwb i'r sinema yng Nghaerfyrddin. Noson o ymlacio oedd hon cyn y nos Lun nesaf!

Cafwyd twmpath dawns ar y 18fed o Fawrth, wrth i Erwyd Howells ein harwain yn ei ffordd hwylus mewn noson o gadw'n heini a chwysu. Diolch i glybiau Troedraur a Llanddewi am ymuno gyda ni yn yr hwyl.

Cwis iau y Sir cafwyd ar y 25ain o Fawrth. Roedd dau dîm yn cystadlu. Noson o grafu pen a chanolbwyntio oedd hon.

Ar yr 8fed o Fawrth, cafodd Arwel Jenkins, cadeirydd y clwb ei benodi'n ffermwr ifanc y Sir. Hefyd, cafodd Luned Mair, ysgrifenyddes y clwb ei phenodi yn un o forwynion y Sir. Llongyfarchiadau mawr i chi, a phob lwc yn eich swyddi newydd. Blwyddyn brysur iawn i'r ddau ohonoch.

Bu Gwawr Hatcher a Carwyn Davies o'r clwb yn rhan o raglen radio arbennig y Fforwm Ieuencid. Rhaglen a'i hysgifenwyd, a'i chyflwyno gan aelodau pwyllgor y Fforwm Ieuencid. Os ydych am ei chlywed, yna ewch i wefan Stiwdio box, mae'r manylion yno i chi.

Y Gymdeithas Hŷn

Daeth 24 o'r aelodau ynghyd i Ysgol Gynradd Cwrtnewydd ar y 13eg o fis Mawrth, a chroesawyd pawb gan Dilwen George, y Cadeirydd. Braff oedd cael cwmni Mrs Ann Thomas, Milford gyda ni. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan bedwar aelod.

Dymunwyd pen-blwydd hapus cyn hir i Jim Evans. Blin clywed fod Dilys Davies, Clarence, yn Ysbyty Glangwili. Cyfeiriwyd at gyn-aelod - sef Mair Davies, Dolwerdd - hithau yn Glangwili wedi cwmpo, a hefyd at Kathleen Jay sydd wedi cael llawdriniaeth yno. Dymunwyd adferiad iechyd buan i'r tair ohonynt.

Llongyfarchwyd Dilwen George am ddod yn hen-fam-gu ac yn hen-hen-fam-gu i ddau o fabanod yn ystod y mis.

Daeth disgyblion yr ysgol i gyd i'r Neuadd erbyn 2 o'r gloch ac wrth eu croesawu dywedodd Dilwen George eu bod wedi gwneud yn rhagorol yn Eisteddfod Gylch yr Urdd a'u bod yn mynd â naw eitem i'r Steddfod Sir. Fe'u llongyfarchwyd yn gynnes.

Cyflwynwyd eitemau'r plant gan Ms. Heddwen Davies, y Brifathrawes, a chafwyd amrywiaeth o eitemau - caneuon unigol, deuawdau, a phartïon yn ogystal â llefaru, eitem offerynnol ar y cornet, a chân actol arbennig iawn.

Roedd yn amlwg fod y plant yn mwynhau perfformio, ond roedd mwynhad eu cynulleidfya yn fawr hefyd a dangoswyd eu gwerthfawrogiad yn gynnes.

Diolchwyd i'r plant a staff yr ysgol am eu gwaith caled gan Mrs. Mary Davies, Awel Teifi, a dymunodd bob llwyddiant eto iddynt yn yr Eisteddfod Sir.

Paratowyd lluniaeth i'r aelodau a phlant yr ysgol gan chworydd Seion a Chapel-y-bryn, a diolchwyd iddynt gan y Cadeirydd.

Bydd triapiau'r haf yn cychwyn mis nesaf ar y 10fed o Ebrill, ac yn mynd i Dŷ a Gerddi Dyffryn, ger San Nicolas. Y bws i gychwyn am 8-45yb o garej Pontfaen. Enwau i Yvonne (480590) cyn gynted â phosib.

Anffawd

Gobeithio fod Mair Davies, Dolwerdd ar wellhad yn dilyn ei hanffawd a gafodd yn ystod y mis. Treuliodd beth amser yn Ysbyty Glangwili.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Geoff Bone, Ochr Nant ar farwolaeth ei wraig, Moira yn Ysbyty Glangwili yn ystod y mis.

Hefyd, cydymdeimlwn yn ddwys ag Anne, John, Richard a Rhian Milcoy, Llwynteg yn eu profedigaeth o golli mam, mam-gu annwyl ym mherson Mrs Mair Evans, Dolydd.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boes yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw:
Cyfeiriad:
Codi post:
Rhif Ffôn:

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

	1		4	5	6	8	9	
				1				5
				9	2			
1		7						
	6	9		3		5	2	
					1		3	
		5	4					
6			5					
4	8	2	9	6			5	

Atebion Swdocw

Imis Mawrth:

I Llongyfarchiadau

II Llongyfarchiadau i

INatalie Moore, Penbryn,

ILlanbed a diolch i bawb

Iarall am gystadlu: Avril

IWilliams, Y Fedw,

ICwmann; Bethan

IWilliams, Neuadd

IFryn, Llanybydder;

IShirley Walker, Heol-

y-Gaer, Llanybydder;

IElma Phillips, Llys

IGwyn, Cellan; Delyth

IEdwards, Deulan, Llansawel; Eirlys

IDavies, Eurfan, Llanybydder; Glenys Davies, Gelli Aur,

ILlanybydder ac Augusta Davies, Kingsmead, Llanbed.

2	7	5	3	6	8	9	1	4
1	6	4	7	5	9	8	2	3
8	9	3	2	4	1	7	6	5
4	8	7	9	3	6	2	5	1
6	1	9	5	2	4	3	7	8
5	3	2	8	1	7	6	4	9
3	5	6	4	8	2	1	9	7
9	4	1	6	7	3	5	8	2
7	2	8	1	9	5	4	3	6

O'r Cynghorau Bro



Cyngor Bro Llanllwni

Cadeirydd: Tom Bowen; Is-gadeirydd: Eric Davies; Clerc: Eirlys Davies; Gohebydd y Wasg: Dewi Davies; Cynghorydd Sir: Linda Evans.

Cyfarfu'r Cyngor ar 14 Ionawr 2013

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Cadarnhawyd bod Tom Jones wedi archwilio'r maes chwarae a'r adnoddau yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd datblygiad pellach ynglŷn â'r matiau yn y lle chwarae a phenderfynwyd y byddai'r matiau yn cael eu glanhau yn y gwanwyn.

Ni fu datblygiad pellach ynglŷn â phrynu y copi diweddaraf o gofrestr Mynydd Llanllwni. Yr oedd y Clerc wedi derbyn e-bost yn cadarnhau y byddai'r copi yn cyrraedd y Clerc erbyn dechrau mis Ionawr. Penderfynwyd gan y Cynghorwyr bod angen cysylltu ag Andrew Paterson eto.

Penderfynwyd cefnogi'r canlynol: Macmillan; Eisteddfod Genedlaethol Cymru; CFFI Sir Gâr; Shelter Cymru; Marie Curie; Cymdeithas Brydeinig y Galon (Cangen Llanybydder).

Yr oedd gan y Clerc hen gofnodion yn y tŷ a phenderfynwyd yn unfrydol gan yr aelodau bod y Clerc yn mynd â'r hen gofnodion i'r Archifdy yng Nghaerfyrddin.

Cyngor Bro Llanwenog

Cadeirydd: Bill Green; Clerc: Gwennan Davies

Yn dilyn trafodaethau â'r adran briffyrdd mae'r gwelliannau canlynol wedi eu cwblhau: Arwydd Pant Cudd ym Mrynteg; wal Highmead Terrace i'w hatgyweirio; arwyddion electronig 40mya wedi eu gosod yn Drefach; tyllau ar y ffyrdd wedi eu llenwi; darn o goncrit wedi ei osod tu allan i Gapel Brynteg i atal y dŵr o'r heol rhag llifo i'r fynwent.

Mae'r Cynghorwyr am weld atalfa

yn cael ei gosod, er diogelwch, ar dro'r cware yng Nghwrtnewydd. Yn ogystal, mae angen glanhau'r dail o'r gilfan rhwng Drefach a Rhiwson.

Bydd golau newydd yn cael ei osod ar y gofolog yn Drefach ac mae'r broses o edrych am grant ar gyfer ei hatgyweirio wedi dechrau.

Penderfynwyd y byddai'n fuddiol peintio'r ciosgs coch sydd nawr ym mherchnogaeth y Cyngor Cymuned. Bydd silffoedd, pin-fwrdd a bocs cymorth cyntaf yn cael eu gosod yn y rhai sydd o fewn pentrefi'r plwyf. Mae CFFI Llanwenog wedi cytuno rhoi gwybodaeth ar yr hysbysfyrddau.

Cytunodd y Cynghorwyr ddanfôn llythyr o gefnogaeth at bwyllgor Neuadd Gors-goch yn eu hymgyrch i gael grantiau i atgyweirio'r Neuadd.

Mae'r grant i dorri prysgwydd pedwar llwybr yn y Plwyf wedi ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ynghyd â grant ar gyfer prynu 8 mainc newydd i'r Plwyf.

Cefn Hafo
Gorsgoch



01570 434238

Cyri bob nos Wener
£6 y pen

Cwis - nos Iau cyntaf bob mis
[bwyd yn than o'r noson]
Croeso cynnes i bawb!

W.D.
Lewis
a'l Fab

Masnachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn/Also i:
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



O'r Cynulliad gan Elin Jones

Newyddion trist oedd clywed fod ffatri prosesu caws Saputo yng Nghastell Newydd Emlyn i'w werthu gan ei berchnogion o Quebec. Mae'n newyddion drwg i'r gweithwyr a'u teuluoedd mewn ardal lle mae cyfleoedd gwaith eraill yn brin iawn. Ond mae hefyd yn newyddion drwg iawn i'r ffermwyr hynny oedd yn cyflenwi'r ffatri ac i'r diwydiant prosesu llaeth yn gyffredinol. Yn draddodiadol ystyriwyd Gorllewin Cymru fel maes llaeth Cymru ac mae gweld hyn yn dirywio ymhellach yn newyddion trist i bawb. Fe ddylai Gorllewin Cymru nid yn unig fod yn cynhyrchu llaeth ond yn ei brosesu yn ogystal er mwyn cael y budd economaidd llawn o'r diwydiant. Rwyf i a Rhodri Glyn Thomas, Aelod y Cynulliad dros Ddwyrain Caerfyrddin, wedi cyfarfod gydag Edwina Hart, y Gweinidog Busnes, i drafod sut y gall Llywodraeth Cymru roi cymorth i ddod o hyd i rywun i brynu'r safle er mwyn

cynnal gwaith, prosesu llaeth a chynhyrchu caws yng Nghastell Newydd Emlyn. Fe fyddaf yn parhau i bwysu ar y Gweinidog i sicrhau fod Llywodraeth Cymru yn rhoi pob cyfle i'r gweithwyr a'r safle i gymryd mantais o unrhyw gyfleoedd a ddaw yn y dyfodol. Nid oes amheuaeth ar ôl hyn fod clustnodi Dyffryn Teifi fel Parth Twf Lleol yn fwy hanfodol byth ac fe fyddaf yn parhau i bwysu ar Lywodraeth Cymru i hybu'r fenter yma yn ei blaen.

Rwyf wedi bod yn herio'r Gweinidog Iechyd yn ddiweddar ynglŷn â chynllunio gweithlu'r Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru. Rydym yn gwybod fod problemau llenwi rhai swyddi meddygol yn creu trafferth i Ysbyty Bronglais o hyd. Yn ddiweddar clywyd fod yna broblem penodi meddygon colorectal yn yr ysbyty hwnnw. Rwy'n credu ei bod hi'n amser i Lywodraeth Cymru ystyried cynnig taliadau anogaeth er mwyn gallu cyflogi meddygon a

staff meddygol mewn ardaloedd lle mae problemau penodi staff. Hefyd mae angen hyfforddi rhagor o'r bobl ifanc i fod yn feddygon i'r NHS i'r dyfodol.

Braf oedd cael dathlu diwrnod Rhyngwladol y Merched gyda'r WI ar bont Trefechan.

**Noson yng nghwmni
Clive Edwards, Cwmeils**
yn y Llew Du, Llanybydder
Nos Wener 7fed Mehefin 2013
am 7.30 yh

Llywydd: Teifi Humphreys Jones
Ty Cardi, Caerdydd
Tocyn £10.00 yn cynnwys
gwydriad o win.

Tocynnau ar gael gan:-
Jennie 01570 422625, Ann 01570
423692, Ieuan 07817 617957, Jean
01570 480 661 a Sara 01570 480289

Trefnir gan Bwyllgor Apêl Llanybydder a
Chwmann tuag at
Eisteddfod Genedlaethol Sir Gar 2014



CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio cyflawn ar
gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes



Bwydleni unigol i ateb eich gofynion
chi - boed yn fawr neu'n fach

Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,
Llambled.

01570 423955

www.alecpageblacksmith.co.uk

"Y gwyliau rydych wedi'u gohirio ers blynnyddoedd"
Peidiwch ag oedi rhagor!

Patagonia :::: Gwlad y Cewri

**Pobl - Tir - Iaith - Hanes - Traddodiad
Dathlu - Difyrwch**

Y trefnwyr mwyaf profiadol - yr unig rai sydd â'u
gwreiddiau yn ddwfn yn y Wladfa.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag Elvey MacDonald,
Haulfan, Maes Carrog, Llanrhystud, Ceredigion. SY23 5AL
01974 202052 e-bost: elveymac1@btinternet.com

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

**01570 423921
07867 945174**



WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHWYR,
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llambled**

01570 422206 01570 423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.



Disgyblion Ysgol Llanwnnen yn eu gwisg ffansi ar gyfer Diwrnod y Trwynau Coch.

Ysgol Llanwnnen

Bu'n fis yr Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth a daeth llwyddiant i'r ysgol wrth i ni gipio gwobrau yn y ddau. Longyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu.

Eisteddfod Gylch

Dawnsio Gwerin Bl6 ac iau i ysgolion tan 100 o blant - 1af; Dawnsio Gwerin Bl4 ac iau - 1af; Dawnsio Disgo Grŵp - 2ail; Holly Cooper, Unawd Llinynnol - 2ail; Carwyn Rosser, Dawnsio Disgo Unigol - 3ydd; Parti Unsain - 3ydd.

Eisteddfod Ranbarth

Dawnsio Gwerin Bl4 ac iau - 2ail; Dawnsio Gwerin Bl6 ac iau i ysgolion tan 100 o blant - 3ydd.

Cafwyd llwyddiant yn yr Eisteddfod Celf a Chrefft Rhanbarth hefyd gyda Gruff Tomos yn cipio'r drydydd wobwr am waith ffelt, Heledd Jenkins yn cipio'r ail wobwr am ffotograffiaeth a Guto Ebbsworth yn cipio'r ail wobwr am waith lluniadu 2D. Da iawn i bawb.

Bu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn rhan o dîm Pentref Llanwnnen wrth iddyn nhw gipio'r drydydd wobwr mewn cystadleuaeth Chwaraeon Rhyng-gymunedol. Llongyfarchiadau i Idris Lloyd ac Heledd Jenkins am ennill y gystadleuaeth rhwydo peli ac i Idris a Meirion Lloyd, Lewis Jarvis

Blower, Carwyn Rosser, Steffan Griffiths, Guto Ebbsworth a Heledd Jenkins am ennill y wobwr gyntaf yn y gystadleuaeth pêl droed.

Ganol y mis bu nifer o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 yn cynrychioli'r ysgol mewn rownd sirol cystadleuaeth hoci. Ar ddiwrnod gwyntog a glawog fe aeth y saith disgybl i Lamed i gystadlu yn erbyn pump o dimoedd eraill ac ar ddiwedd y bore roeddent wedi cyrraedd y gemau cyn derfynol cyn colli a chipio'r drydydd wobwr ar y cyd gydag Ysgol Cwrtnewydd. Da iawn i bawb a fu'n cystadlu.

Yr un diwrnod yn y prynhawn aeth nifer fawr o ddisgyblion yr adran iau i gaeau'r Coleg yn Llamed i gystadlu yng nghystadleuaeth Traws Gwlad Cylch yr Urdd. Rhedodd pawb yn wych a braf oedd gweld nifer o blant yn gorffen yn y deg uchaf. Heledd Jenkins - 2ail, Lilly Smith - 5ed, Meirion Lloyd - 6ed, Guto Ebbsworth - 7fed ac Idris Lloyd - 9fed. Da iawn i bawb.

Buodd Cyngor yr Ysgol yn gwerthu nwyddau masnach deg ar iard yr ysgol yn ddiweddar. Gwerthwyd cyfanswm o £101-25c i Gymorth Cristnogol.

Bu Tom Defis o Gymorth Cristnogol yn siarad â'r plant am bwysigrwydd cefnogi ymdrechion

pobl dlawd y byd drwy brynu nwyddau masnach deg.

Daeth Gerry Taylor swyddog Eco-Sgolion a Masnach Deg i'r ysgol i ddysgu'r plant am effeithiau torri coed y fforestydd glaw. Cynhaliwyd diwrnod gwyrdd yn yr ysgol i gefnogi a chodi arian i'r achos yma.

Yn ystod pythefnos masnach deg aeth blwyddyn 6 i Ysgol Bro Pedr i gymryd rhan mewn diwrnod o weithgareddau. Cynhaliwyd nifer o weithdai amrywiol a thrwy hynny dysgodd y disgyblion am wledydd tlawd y byd ac am bwysigrwydd o gfnogi masnachu teg.

Sefydliad y Merched

Nos Lun, Mawrth 4ydd bu'r Sefydliad yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Castle Green yn Llamed a chawsom groeso cynnes yno a phryd blasus o Gawl Cymreig, tarten afal neu bwdin reis, te neu goffi a phicau ar y maen. Enillwyd y gystadleuaeth 'Hen Fasin Cawl' gan Mrs Avril Jones, Miss Elsa Thomas oedd yn ail a

Mrs Alice Davies yn drydydd. Mrs Avril Jones hefyd a enillodd y raffl a oedd yn rhoddedig gan Miss Elsa Thomas. Diolchodd ein llywydd, Mrs. Avril Jones i Westy Castle Green am y lluniaeth blasus ac i Mrs Mary Davies a Mrs Ceinwen Roach am drefnu dathliad mor rhagorol. Cynhelir ein cyfarfod nesaf ar 8 Ebrill yng Ngwesty'r Grannell gyda Mrs Joyce Flexman yn arddangos gwaith llaw.

Cawl a Chân

Nos Wener, 8 Mawrth cynhaliwyd noson o Gawl a Chân yng Ngwesty'r Grannell. Arweiniwyd y noson gan Mr Pete Ebbsworth, Pennaeth Cynorthwyol ysgol gynradd y pentref. Cafwyd adloniant gan blant yr ysgol, i gyd yn eu gwisg Gymreig, a buont yn cyflwyno eitemau cerddorol, offerynnol, llefaru, dawnsio gwerin a dawnsio disgo. Yna cafwyd gwledd o gawl gyda'r plant yn cael sosejys a sgloodion trwy garedigrwydd Siriol a Susan Evans. Yn dilyn hynny, mwynhawyd adloniant gan aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog a chafwyd llawr o hwyl yn eu cwmni. Llywyddion y noson oedd Mr Dilwyn a Mrs Elizabeth Jones, Llechwedderi Uchaf, Cribyn a gwerthfawrogwyd eu rhodd ariannol anrhydeddus. Diolchwyd i bawb am eu cydweithrediad gan Mr Aeron Hughes, Cwmhendryd, Cadeirydd Pwyllgor Adloniant y Pentref. Bydd elw'r noson yn cael ei rannu rhwng yr ysgol leol a Phwyllgor Henoed y Pentref. Dyma noson arbennig i'w chofio.

Arholiad Piano

Llongyfarchiadau mawr i Nia Beca Jones, Blaenhedd, Blaencwrt ar lwyddo yn arholiad piano Gradd 1 gyda 'Distinction' yn ystod y gaeaf. Da iawn ti.



Roedd mis Mawrth yn fis i ddathlu nifer o wahanol bethau ac fe gafwyd cyfle i ddathlu Diwrnod y Llyfr gyda'r disgyblion i gyd yn dod â'u hoff lyfrau i'r ysgol ac yn gwisgo fel enwogion wrth geisio codi arian at 'Comic Relief.' Mwynhaodd pawb y diwrnodau arbennig.



Cafwyd hefyd noson arbennig ar yr 8fed o fis Mawrth yn Noson Cawl a Chân y pentref. Bu disgyblion yr ysgol yn perfformio eitemau'r Eisteddfod yn rhan gyntaf y noson ac yna ar ôl cawl blasus bu aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog yn ein diddanu ni. Cafwyd cyfle yn ystod y noson i ddiolch i Mr Aeron Hughes, Cadeirydd y Cyngor Cymuned, ac i weddill aelodau'r cyngor am eu rhodd hael i'r ysgol ac i ddangos y tabledi Kindle a brynwyd â'r arian roeddent wedi ei roi.

Eisteddfodau Rhanbarth Ceredigion 2013



Unawd Piano Bl. 7 – 9 – 2il Alpha Jones, Ysgol Bro Pedr.



Unawd Cerdd Dant Bl. 7, 8 a 9 – 3ydd Meirion Siôn Thomas, Aelwyd Llamed.



Llefaru Unigol Bl. 7 – 9 i ddysgwyr – 2il Robert Jenkins, Ysgol Bro Pedr.




Deuawd Bl. 10 a dan 19 oed – 3ydd Meinir Davies a Meleri Davies, Aelwyd Llamed.



Grŵp Llefaru Bl. 7, 8 a 9 i ddysgwyr – 2il Ysgol Bro Pedr.



Grŵp Llefaru Bl. 7, 8 a 9 – 2il Ysgol Bro Pedr.



Unawd Pres Bl. 10 a dan 19 oed – 3ydd Benedict Webb, Ysgol Bro Pedr.



Llefaru Unigol Bl. 3 a 4 – 2il Sioned Fflur Davies, Ysgol Bro Pedr.



Ymgom Bl. 7, 8 a 9 – 2il Twm a Briallt, Ysgol Bro Pedr.



Dawns Hip-Hop / Stryd / Disgo Unigol Bl. 6 ac Iau – 2il Sophie Hughes, Ysgol Llanybydder.



Ensemble Offerynnol Bl. 6 ac Iau – 3ydd Ysgol Bro Pedr.



Grŵp Dawnsio Hip-Hop / Stryd / Disgo Bl. 7, 8 a 9 – 2il Ysgol Bro Pedr.


Eisteddfodau Rhanbarth Ceredigion 2013



Parti Cerdd Dant [Unsain] Bl. 6 ac Iau – 2il Ysgol Bro Pedr.



Unawd Pres Bl. 6 ac Iau – 2il
Owen Schröder, Ysgol Cwrtnewydd.



Llefaru Unigol Bl. 2 ac Iau i
ddysgwyr – 2il Gregory Webb,
Ysgol Bro Pedr.



Parti Cerdd Dant Bl. 6 ac Iau i ddysgwyr – 1af Ysgol Bro Pedr.



Deuawd Bl. 6 ac Iau – 3ydd Elan
Jones a Sioned Davies, Ysgol Bro
Pedr.



Cyflwyno Alaw Werin Bl. 6 ac
Iau – 3ydd a Unawd Cerdd Dant
Bl. 5 a 6 – 3ydd Elin Davies, Ysgol
Cwrtnewydd.



Dawns Werin Bl. 6 ac Iau – 3ydd Ysgol Llanwnnen.



Côr Bl. 6 ac Iau – 2il Ysgol Bro Pedr.



Parti Bechgyn Bl. 7, 8 a 9 – 3ydd Ysgol Bro Pedr.



Ensemble Lleisiol Bl. 6 ac Iau – 3ydd Ysgol Bro Pedr.



Buddugwyr, Capteiniaid ac Arweinwyr Côr Eisteddfod Cyfnod Sylfaen Ysgol Bro Pedr gyda Mr Williams a Maer a Maeres y Dref



Dyma lun o enillwyr, capteiniaid ac arweinwyr Eisteddfod yr Adran Iau gyda Mr Williams a Mrs Rhian Evans.

Ysgol Bro Pedr – Campws Iau

Cynhaliwyd Eisteddfod Campws Iau Ysgol Bro Pedr ar Fawrth 1af a bu pob disgybl o'r lleiaf hyd at yr hynaf yn cystadlu ar lafar ac ar gân. Beirniad y canu, llefaru a'r dawnsio eleni oedd Mr David Williams, Pennaeth newydd yr ysgol ac fe wnaeth fwynhau ei eisteddfod gyntaf yng nghwmni'r plant. Mr a Mrs Huw Jenkins cyn brif-athro'r ysgol a'i wraig a fu wrthi'n ddiwyd yn beirniadu'r cystadlaethau celf, llawysgrifen a'r storïau. Diolch i'r tri beirniad am roi o'u hamser prin i feirniadu'r cystadlaethau.

Côr Cyfnod Sylfaen Pedr gyda Faye Jones yn arwain oedd yn fuddugol, gyda Dewi yn ail dan arweinyddiaeth Livy Piowarska a Steffan yn drydydd gyda Evie Mc Kay yn eu harwain. Ar ddiwedd eisteddfod y bore, sef y Cyfnod Sylfaen, Pedr oedd ar y blaen gyda chwech deg o farciau, Dewi'n ail gyda phum deg chwech o farciau a Steffan yn drydydd gyda phedwar deg pedwar o farciau. Cyflwynwyd y darian i gapteiniaid y tŷ buddugol sef Ffion Davies a Jac Rogers gan Faer a Maeres y Dref sef y Cyngorydd a Mrs Ramaya a diolch iddynt am eu presenoldeb. Capteiniaid Dewi oedd Taidgh Mullins a Livy Piowarska a chapteiniaid Steffan oedd Jessica McKay a Jake Barber.

Yn Seremoni'r cadeirio cipiwyd y gwobrau gan y canlynol:- Storïau Cymraeg Blwyddyn 2: 1af Ffion Davies; 2ail Niah Bouvet; 3ydd Taidgh Mullins. Blwyddyn 3: 1af Jodie Evans; 2ail Lisa Jones; 3ydd Kodi Nisbet. Blwyddyn 4: 1af Zoe Jarman Davies; 2ail Sioned Davies; 3ydd Ifan Morgan. Blwyddyn 5: 1af Elan Jones; 2ail Lauren Hill; 3ydd Ruth Davies. Blwyddyn 6: 1af Lucy Hill; 2ail Tegan Dunderdale; 3ydd Bea Casiday. Blwyddyn 2: 1af Rihanna Moore-Jackson; 2ail Tegan Allan; 3ydd Kai Moore. Blwyddyn 3: 1af Austin Thomas; 2ail Daniel Legg; 3ydd Luca Assaf. Blwyddyn 4: 1af Al Attala; 2ail Joseph Gregg; 3ydd Melanie Miller. Blwyddyn 5: 1af Aisvarya Sridar; 2ail Phoebe Cory Wrighton; 3ydd Aeron Kime a Rosie Nasr Butler. Blwyddyn 6: 1af Theo Teasdale; 2ail Jennifer Hoe; 3ydd Rika Zinn.

Yn Eisteddfod yr Adran Iau Côr Steffan a ddaeth i'r brig gyda Leandro Calado yn arwain, a Phedr gyda Kieran Davies yn arwain yn gydradd ail gyda Dewi a oedd â Nathan Plant wrth y llyw. Tŷ Dewi oedd yn fuddugol ar y dawnsio disgo, gyda Steffan yn ail a Phedr yn drydydd. Ddiwedd y dydd Pedr oedd yn fuddugol gyda chant chwech deg naw o bwyntiau, Dewi'n ail gyda chant chwech deg o farciau a Steffan yn drydydd gyda chant tri deg dau o farciau. Cyflwynwyd y darian i gapteiniaid ac is-gapteiniaid y tŷ buddugol sef Lucy Hill, Dewi Hobbs, Bea Cassiday a Iestyn Owens gan Gadeirydd y Llywodraethwyr Mrs Rhian Evans a diolch iddi am ei phresenoldeb. Derbyniodd capteiniaid ac is-gapteiniaid Dewi sef Bryn Jones, Samantha Weller Pryce, Rhys Davies a Kaycee Butler a Steffan sef Guto Green, Chloe George, Owen Davies a Lowri Davies fathodynau hefyd. Diolch yn fawr i bob aelod o'r staff a fu'n brysus yn paratoi'r plant.

Yn Eisteddfod Gylch yr Urdd cafwyd tipyn o lwyddiant. Llongyfarchiadau a diolch i bawb a fu'n hyfforddi:-

Dawnsio Disgo unigol - 2ail Samantha Weller Pryce; Dawnsio Gwerin blynyddoedd 3 a 4 - 2ail; Dawnsio Disgo - 1af; Dawns Cyfrwng Cymysg - 1af; Unawd bl 2 ac iau - 1af Ffion Mai Davies; Unawd bl 3 a 4 - 2ail Sioned Fflur Davies, 3ydd Nia Beca; Unawd bl 5 a 6 - 2ail Elan Jones; Llefaru bl 2 ac iau - 3ydd Ffion Mai Davies; Llefaru bl 3 a 4 - 1af Sioned Fflur Davies; Unawd Llinynnol bl 6 ac iau - 1af Lucy Hill; Unawd Piano bl 6 ac iau - 1af Austin Thomas; Ensemble Lleisiol - 1af; Ensemble offerynnol - 1af; Cerddorfa - 1af; Alaw Werin bl 6 ac iau - 2ail Elan Jones, 3ydd Sioned Davies; Deuawd bl 6 ac iau - 1af Sioned Davies ac Elan Jones, 2il Megan Mai Jones a Nia Beca Jones; Unawd Cerdd Dant bl 2 ac iau - 1af Ffion Mai Davies; Unawd Cerdd Dant bl 3 a 4 - 3ydd Nia Beca Jones; Unawd Cerdd Dant bl 6 ac iau - 2ail Elan Jones; Parti Cerdd Dant iaith gyntaf - 1af; Parti

Cerdd Dant ail-iaith - 1af; Llefaru i ddysgwyr bl 2 ac iau - 1af Gregory Webb, 3ydd Leo Thomas; Llefaru i ddysgwyr bl 3 a 4 - 1af Aimie Methuen, 2ail Austin Thomas, 3ydd Laura Jones; Grŵp llefaru i ddysgwyr - 1af; Grŵp llefaru iaith gyntaf - 2ail; Parti Deulais - 1af; Côr bl 6 ac iau - 1af; Parti Canu'r adran - 1af.

Bu nifer o'r disgyblion yn llwyddiannus yng nghystadleuaeth Gelf a Chrefft Sirol yr Urdd hefyd. Llongyfarchiadau i:- Lowri Meles James Evans 1af Gwaith Creadigol 3D, 2ail Graffeg Cyfrifiadurol, 2ail Pyped, 3ydd Penwisg, 1af printiau Monocrom, 1af printiau Lliw, 2ail Gemwait; Austin Thomas 1af Gwaith Creadigol 3D; Julia Nagy 2ail gwaith Creadigol 3D; Jessica Mc Donagh 3ydd Gwaith Creadigol 3D; Ifan Meredith 1af Gwehyddu, 2ail Printiau Lliw, 1af Gemwait; Rhys Davies 1af Print lliw, 3ydd Print Monocrom; Evie McKay 3ydd Gwaith Creadigol 3D

Daeth llwyddiant ysgubol i'r disgyblion canlynol yng nghystadleuaeth Traws-gwlad y Tair Sir: Ruth Davies 2ail Merched blwyddyn 5 ac yn mynd i gynrychioli Dyfed yn erbyn Gorllewin Morgannwg; Dewi Hobbs - Bechgyn blwyddyn 5 yn 9fed ac yn mynd i gynrychioli Dyfed yn erbyn Gorllewin Morgannwg. Tim bechgyn blwyddyn 6 sef Iestyn Owens, Dewi Hobbs, Rhys Davies - 1af o blith 55 ysgol. Gwych!

Yng nghystadleuaeth Traws-gwlad y Cylch bu'r canlynol yn llwyddiannus hefyd sef:- Bechgyn blwyddyn 6 - 1af Iestyn Owens, 3ydd Bryn Jones, 4ydd Dafydd Lewis, 5ed Rhys Davies, 8 fed Kieran Davies. Merched blwyddyn 6:- 3ydd Jennifer Hoe; 6ed Natalia Trybula; 8fed Lowri Lewis. Bechgyn 5 - 5ed George Newton; 6ed Rhodri Morgan; 8fed Joseph Saunders; 9fed Jac Williams. Merched blwyddyn 5:- 2il Ruth Davies; 6ed Lauren Hill. Bechgyn 4:- 1af Owen Rowcliffe; 2ail Harry Saunders; 3ydd Olaf S. Merched blwyddyn 4 2ail Jessica Davies; 5ed Mia Hibbert; 8fed Naomi Finch. Bechgyn 3:- 2ail Rhys Tom; 3ydd Daniel Legg; 8fed George Condon; 9fed Natan Mazur. Merched blwyddyn 3 - 8fed Marnie Tiffany.

Bu nifer o'n disgyblion yn cystadlu yng ngala nofio Ceredigion yn Aberystwyth yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i Wyn Jones, Caio Williams, Oscar Harris, Eszter Fulop, Archi Warren, Alex Dartnell Jones am wneud mor dda. Daliwch ati i fwynhau nofio. Gwnaeth tîm rygbi'r Ysgol ennill twrnament Sirol yr Urdd yn ddiweddar a diolch i Mr Roderick a Mr Thomas am eu hyfforddi. Byddant yn mynd ymlaen i gystadlu ar y lefel genedlaethol ym mis Mai. Da iawn chi bois - pwy a wŷr falle fe fydd rhai ohonoch chi yn gwisgo crys coch Cymru rhyw ddydd.

Bu criw teledu Cyw yn yr ysgol yn ffilmio disgyblion blynyddoedd 1 Teifi a 2 Aeron yn canu, dawnsio, siarad a chwarae. Cawsant lawer o hwyl a sbri a byddant yn ymddangos ar y sgrin fawr ddiwedd y mis.




Bu'r Brodyr Gregory yn cyflwyno sioe i ddisgyblion y campws iau ynglŷn ag ailgylchu. Cafodd y disgyblion lawer o hwyl a sbri a dysgu llawer yr un pryd.

Bu holl ddisgyblion yr ysgol yn ddigon ffodus i gael disgo ar ddydd Gwener olaf y tymor. Diolch i Gyngor y Dref am drefnu'r disgo blynyddol a'r pop a'r creision ac am eu cefnogaeth barod i'r ysgol bob amser.

Ysgol Bro Pedr - Hŷn

Bu Ffion Quan, Caitlin Page a Grace Page yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth Traws Gwlad Ysgolion Cymru yn ddiweddar. Daeth Grace yn 29ain yng nghystadleuaeth blwyddyn 7, a daeth Ffion yn 17eg a Caitlin yn 4ydd yng nghystadleuaeth blwyddyn 10. Llongyfarchiadau mawr iddynt ar eu llwyddiant yn y cystadlaethau.



Ddydd Mercher, Chwefror 20fed daeth Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru i ymweld â'r Ysgol. Gofynnodd i ddisgyblion o'r cynradd a'r uwchradd am eu safbwyntiau a'u teimladau ynghylch cynnig i wella rheolaeth cŵn. Dyma ran o gynllun gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo gofal a pherchnogaeth gyfrifol o gŵn yng Nghymru.

Dros yr wythnosau diwethaf bu disgyblion blynyddoedd 5, 6, 7 a 8 yn llyfrgell y Campws Hŷn yn trafod syniadau mewn grwpiau i wneud sgript gogyfer â chystadleuaeth 'Book Trailers'. Roedd y trailers yn eglur ac yn ddoniol iawn a dewisodd y grwpiau actorion arbennig o dda ac roedd pob sgript yn wych. Gweithred anodd iawn oedd dewis enillydd, ond blwyddyn 5 Llew a ddaeth i'r brig gydag hysbyseb ar gyfer 'The Hobbit' gan J.R.R. Tolkien; daeth grŵp o flwyddyn 8 yn ail gydag hysbyseb i 'Twilight' gan Stephanie Meyer; a daeth blwyddyn 6 Arthur gyda 'Fantastic Mr Fox' a blwyddyn 7 Pedr gyda 'The Highwayman' yn gydradd drydydd.

Cynhaliwyd helfa drysor o amgylch y campws hŷn ar Fawrth y 7fed i ddathlu Diwrnod y Llyfr hefyd. Llongyfarchiadau i'r enillwyr: grŵp Miranda a Chloe a grŵp Cyffin, Menna ac Anis yn gydradd gyntaf gyda 34 o bwyntiau; grŵp Ben, Iolo a Jordan yn ail gyda 33 o bwyntiau a grŵp Aoife a Gwen yn drydydd gyda 32 o bwyntiau.

Cafodd Ysgol Bro Pedr ei dewis yn ddiweddar yn un o blith ond 24 ysgol yng Nghymru i dderbyn ymweliad arbennig wrth y 'Maths Roadshow'. Ar Ionawr 23ain, daeth siaradwr gwadd i'r Ysgol i roi cyflwyniad i ddisgyblion o flwyddyn 8 a 9. Cafodd y disgyblion gyfle i wyllo clipiau fideo am amryw o wahanol swyddi, a chafodd rhai gyfle i gymryd rhan mewn arddangosiad ymarferol hyd yn oed.

Dysgu am yr 'Holocaust': Llongyfarchiadau i Joe Jenkins a Ffion Dale o flwyddyn 12 ar gael eu dewis i gymryd rhan yng ngweithgareddau 'Holocaust Educational Trust'. Byddant yn cael y cyfle i ymuno â nifer o ddisgyblion o ysgolion eraill er mwyn dod i ddysgu mwy am hanes yr Iddewon yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Maent eisoes wedi bod yn cymryd rhan mewn seminarau a newydd fod ar daith i Wlad Pwyl er mwyn ymweld â gwersyll marwolaeth Auschwitz - Birkenau gyda Mr Jones o'r Adran Hanes.

Ar Chwefror 18fed, cafodd 14 o ddisgyblion y chweched sy'n astudio hanes drwy gyfrwng y Gymraeg gyfle i fynychu cyfres o weithdai yn Llyfrgell y Dref, Caerfyrddin. Trefnwyd y gweithdai gan yr Adran Hanes a Gwleidyddiaeth Prifysgol Aberystwyth. Roedd yn ddiwrnod diddorol iawn ac yn gyfle i'r disgyblion ehangu a chyfoethogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth hanesyddol a gwleidyddol yn ogystal â chael blas ar astudio mewn prifysgol a derbyn darlithoedd gan ddarlithwyr profiadol.

Band Jazz y Tair Sir - Llongyfarchiadau mawr i Benedict Webb o flwyddyn 13 am gael ei wahodd i fod yn rhan o Fand Jazz y Tair Sir. Yn dilyn cwrs preswyl, cynhaliwyd cyngerdd llwyddiannus iawn yn Theatr y Lyric yng Nghaerfyrddin.

Ar benwythnos oer yng nghanol mis Chwefror bu'r disgyblion dewr canlynol ar gwrs penwythnos preswyl yng Nghanolfan yr Urdd yn Llangrannog yn ymarfer fel aelodau Cerddorfa Linynnol Hŷn a Band Chwyth Symffonig Sir Ceredigion. Uchafbwynt yr holl ymarferion oedd cyngerdd yn Neuadd Fawr Aberystwyth. Cafwyd cymysgedd o berfformiadau yn ystod y noson o Mozart i Nielsen, Harry Potter, E.T. a'r Beatles. Pleser oedd gweld a chlywed y disgyblion yma yn perfformio. Julianna Barker - Fiola, Arianna Morris - Sielo, Bethan Webb - Corn Ffrengig, Francis Webb - Taro, Christopher Barker - Ffidil, Max Zinn - Trombôn, Aoife Wooding - Ffidil, Benedict Webb - Trymped.

Llongyfarchiadau i Meleri Davies am ddod yn 1af ac Ianto Jones am ddod yn 3ydd mewn cystadleuaeth gyfansoddi yn ddiweddar. Cystadleuaeth newydd yw hon a gafodd ei chreu ar gyfer 'Gŵyl Cerddoriaeth Gysegredig y Byd Llanbedr Pont Steffan' a gynhaliwyd yn y Brifysgol rhwng Mawrth yr 22ain a'r 24ain. Y dasg oedd creu darn cysegredig i lais neu leisiau. Bydd yr enillydd yn ennill amser recordio mewn stiwdio sain yng Nghaerdydd a chafodd yr holl enillwyr eu gwobrwyo gan y cyfansoddwr enwog Karl Jenkins ar y 23ain o Fawrth yn Neuadd y Brifysgol yn Llanbedr. Yn ystod y noson cafodd y darn buddugol ei berfformio gan Gôr Coleg Caerfyrddin, gyda Karl Jenkins yn arwain.



Ddydd Mercher 27ain o Chwefror cynhaliwyd diwrnod Hwyl Masnach Deg i flwyddyn 6 yn y Campws Hŷn. Roedd yn gyfle gwych i'r disgyblion ddysgu am Fasnach Deg a chael blas o fywyd yn yr ysgol uwchradd. Croesawyd disgyblion o Lanwnnen, Cwrtnewydd, Llanwenog, Ysgol Y Dderi, Trefilan, Carreg Hirfaen, Llanybydder, Llanllwni a Bro Pedr Iau i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau diddorol. Bu disgyblion Blwyddyn 12 a 13 yn cynorthwyo drwy gydol y dydd gan drefnu Caffi Masnach Deg amser egwyl. Roeddent yn gwerthu bananas a chacennau Masnach Deg. Diolch iddynt am eu gwaith yn tywys blwyddyn 6 yn ystod y dydd hefyd. Diolch i archfarchnad y Co-op a Sainsburys am roi sampl hael o'r nwyddau Masnach Deg y maent yn gwerthu. Mae disgyblion blwyddyn 7 a 8 wedi dysgu am bwysigrwydd Masnach Deg yn ystod eu gwersi Daearyddiaeth. Cafwyd trafodaethau diddorol am bwysigrwydd talu pris teg i'r cynhyrchwyr bwyd. Bu disgyblion Blwyddyn 8

yn gwerthu bananas a chacennau Masnach Deg yn ystod amser egwyl hefyd.

Bu dau dîm o Ysgol Bro Pedr yn cystadlu yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus De Cymru'r Rotari yn ddiweddar yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro. Bu'r ddau dîm yn cystadlu yn erbyn 15 ysgol a 45 o ymgeiswyr arall yn y gystadleuaeth 'Youth Speaks'. Roedd yna ddau grŵp




oedran gwahanol (yr adran iau a'r adran hŷn). Aelodau tîm yr adran iau oedd Jessica Charles-Davies, Huw Howells a Rhys Davies a'r testun oedd, 'Dylid amddiffyn preifatrwydd pobl enwog'. Aelodau'r tîm hŷn oedd Christopher Barker, Caleb Davis a Gethin Morgan a dewisodd y disgyblion yma drafod y testun, 'Dylai Prydain adael yr Undeb Ewropeaidd'. Dywedodd ein Prifathro, Mr David Williams, ei fod yn hapus iawn gyda pherfformiad y ddau dîm, "Roedd y timoedd o Ysgol Bro Pedr wedi ymchwilio'r testunau a'r dadleuon yn drwyadl ac wedi cyflwyno'r cyfan mewn dull strwythuredig a difyr iawn. Roedd y disgyblion wedi dangos ymroddiad ac agwedd bositif iawn ac wedi gallu diddanu'r cynulleidfaoedd ar y noson. Hoffwn longyfarch y ddau dîm yn fawr." Ysgol Gatholig St John Lloyd o Lanelli a enillodd y gystadleuaeth iau ac Ysgol Bryn Hafren o'r Barri a enillodd y gystadleuaeth hŷn. Dywedodd Bob Lewis ar ran y Clwb Rotari, "Roedd pob disgybl wedi gwneud yn arbennig o dda a dylen nhw deimlo'n falch iawn o'u perfformiadau clodwiw ar y noson, hyd yn oed os nad hwy enillodd y gystadleuaeth. Mae'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn ddawn a fydd gyda nhw am weddill eu bywydau; dawn a fydd yn eu helpu nhw o ran llwyddo ym myd addysg a byd gwaith".



Ysgol Bro Pedr



Bob nos Fawrth rhwng 3:30 - 5:30yh mae'r Ysgol yn cynnal clwb Technocamps ym Mloc y Berllan. Yn ystod y sesiynau yma mae'r disgyblion yn dysgu sut i adeiladu robotiaid ac yn datblygu sgiliau rhaglennu newydd a sawl peth arall. Mae'r disgyblion yn mwynhau'r sesiynau yma gyda hyfforddwy'r o Brifysgol Cymru, Aberystwyth yn fawr iawn ac maent yn sicr yn dysgu sgiliau newydd bob wythnos.



Pencarreg

Prawf Gyrru

Daeth newyddion llawenydd o'r Muriau Gwyn bod Sian Elin wedi llwyddo yn ei phrawf gyrru a bod ganddi drwydded bellach i fod tu ôl y llyw! Da iawn ti Sian Elin.

Gwellhad Buan

Yn dilyn anffawd tra wrth ei gwaith da yw deall bod Glenys Morgans, Fferm Rhydowen bellach yn gwella'n foddhaol. Falch o glywed dy fod ar wellhad Glenys.

Aduniad Ysgol Pencarreg

Yn dilyn y newyddion am drefnu aduniad ar yr 22ain o Fehefin yn y Llew Du, Llanybydder rwy wedi derbyn nifer o alwadau ffôn a'r diweddaraf wrth Veronica Morris sydd yn mynd i ddod ynghyd â chwech o gyn-ddisgyblion a ffrindiau ganddi. Pris y swper yw £13.00 yr un ac Ann Mayes fydd yn paratoi'r bwyd.

Hoffwn ddiolch i Gwynfor Lewis am gynnig helpu gyda'r trefniadau.



Dyma hen lun rhai o gyn-ddisgyblion tua 1958. Gweler rhagor o fanylion yn CLONC mis Mai. Os byddwch eisiau unrhyw wybodaeth croeso i chi godi'r ffôn unrhyw bryd – Linda Thomas, Dolgwm Uchaf 01570 422270 neu Gwynfor Lewis, Melin W D Lewis, Llambod – 01570 422540.

Mae Gwynfor yn barod i ymgymeryd â'r gwaith o dderbyn yr arian neu sieciau. Felly, medrwyd anfon ato cyn gynted â phosib i ysgafnhau y trefniadau. Gwnewch eich sieciau i Gwynfor Lewis. Byddwn yn medru rhoi rhif wedyn i Ann Mayes ar gyfer paratoi'r bwyd.

Gŵyl Gerddoriaeth

Mae Gŵyl Agoriadol Cerddoriaeth Gysegredig y Byd Llanbedr Pont Steffan dros benwythnos 22-24 Mawrth wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Byddwn yn cynnwys llawer mwy o wybodaeth am elfennau gwahanol yr Ŵyl yn rhifyn mis Mai o'r Glonc ond rhaid sôn am ambell i beth yn y rhifyn yma er mwyn cydnabod y llwyddiant.

Roedd y cyngerdd nos Wener yng nghwmni corau Cwmann a Corisma ac artistiaid megis Kathy Milles, Josie Smith, Rajesh David a Brian (Smudger) Smith wedi llenwi Neuadd Buddug. Cafodd dros 300 o docynnau eu gwerthu ar gyfer Cyngerdd Karl Jenkins ar y nos Sadwrn ac yn ystod y cyngerdd fe wnaeth Karl Jenkins gyflwyno'r tystysgrifau i enillwyr y gystadleuaeth Cyfansoddi Cerddoriaeth Gysegredig ar gyfer Ysgolion.

Meleri Davies o Ysgol Bro Pedr oedd yn fuddugol gyda Fleur Snow o Ysgol Dyffryn Teifi yn ail a Ianto Jones o Ysgol Bro Pedr yn 3ydd. Bydd yr enillydd yn derbyn tlws hefyd, i'w gadw yn yr Ysgol yn ystod y flwyddyn nesaf. Cafodd y tlws ei noddi gan HSBC. Yn ogystal, bydd yr enillydd yn cael diwrnod yn stiwdio Acapela yng Nghaerdydd trwy garedigrwydd Hywel Wigley a Catrin Finch. Bydd y darn buddugol gan Meleri Davies yn cael ei berfformio yn fyw mewn cyngerdd yn hwyrach yn y flwyddyn yn ogystal ag yn yr Ŵyl flwyddyn nesaf. Roedd arweiniad Eilir Owen Griffiths o'r darnau Fanfare a Thangnefeddwyr Eric Jones ar ddechrau'r cyngerdd yn wefreiddiol ac wedi creu'r naws perffaith ar gyfer The Armed Man, A Mass for Peace Karl Jenkins. Byddwn yn cynnwys mwy o wybodaeth y mis nesaf er mwyn rhannu hanes popeth a ddigwyddodd - y seminarau a'r PWNC brynhawn dydd Sadwrn, a'r Cymundeb, yr orymdaith a'r pryd bwyd a'r Gerddoriaeth Gysegredig ar Sul y Blodau cyn cloi'r Ŵyl gyda'r llafarganu Gregoraidd yn y Brynhawol Weddi dan arweiniad Y Parchedig Chris Webb yn Eglwys San Pedr.

[Llun o Meleri a Ianto ar y dudalen flaen]

Llanllwni

Cylch Meithrin Llanllwni - Derbyn Sêl Cylch Rhagorol

Roedd gan staff, phwyllgor a phlant bach Cylch Meithrin Llanllwni fwy nag un rheswm dros ddathlu Dydd Gŵyl Dewi eleni gan eu bod newydd dderbyn statws Cylch Rhagorol Mudiad Ysgolion Meithrin. Yn ôl y Mudiad mae derbyn y sêl yma yn cydnabod yr elfennau arbennig sy'n dod ynghyd i greu cylch o ansawdd rhagorol. Rydym wedi derbyn adroddiad arbennig o dda sydd yn cydnabod y gwaith rhagorol mae Ffion ein harweinydd a Helen ein cynorthwyydd yn ei gyflawni er mwyn rhoi'r cychwyn gorau phosib i blant bach ein hardal.

Nodir yn yr adroddiad bod y plant yn 'cael hwyl yng nghwmni ei gilydd' a bod ystafell y cylch 'yn ddeniadol a chroesawgar ac yn darparu awyrgylch symbylgar ar gyfer y plant. Defnyddir y gofod sydd ar gael yn greadigol ac yn ddeniadol er mwyn hyrwyddo mwynhad, datblygiad a dysgu pob plentyn'.

Adroddwyd bod y 'Cylch yn defnyddio amryw o wahanol ddulliau er mwyn hybu dysgu annibynnol pob plentyn er mwyn iddo fagu hunan hyder, a rhoddir pwyslais ar sicrhau cyfleoedd i bob plentyn lwyddo yn eu dysgu.' Nodir hefyd bod y 'cyd weithrediad ardderchog sy'n bodoli rhwng y Cylch a'r Ysgol yn cael ei werthfawrogi.' Fel Pwyllgor a staff y Cylch rydym yn ddiolchgar iawn i Ysgol Eglwys Llanllwni ac i Gyngor Bro Llanllwni am eu cefnogaeth ar hyd y blynyddoedd ac mae derbyn Sêl y Cylch Rhagorol yn glod iddynt hwythau hefyd..

Yn ogystal â chefnogaeth y Cyngor Bro yr ydym yn ddiolchgar iawn i Gronfa Budd Cymunedol Fferm Wynt Statkraft Alltwalis am eu cyfraniad hael o £5,065. Mae'r swm sylweddol yma yn gwneud gwahaniaeth mawr i ni fel Cylch ac wedi ein galluogi i ganolbwyntio ar gyrraedd safon y Cylch Rhagorol, felly mae ein diolch yn fawr i Bwyllgor y Gronfa.

Bingo'r Cylch

Diolch o galon i bawb a wnaeth fynychu a chefnogi ein Bingo drwy gyfrannu gwobrau ar gyfer y Bingo, y Raffl a'r ocsiwn. Fe gawsom noson lwyddiannus dros ben drwy godi £712.

Parti nwyddau Body Shop yn Nafarn Talardd ar y 5ed o Ebrill am 7.30yh

Croeso i chi ymuno gyda ni i gael noson i ymlacio a mwynhau nwyddau'r Body Shop yn Nhafarn Talardd ar y 5ed o Ebrill am 7.30yh. Bydd yr elw yn mynd tuag at Gylch Meithrin Llanllwni.

Diwrnod newydd i Gylch Ti a Fi Llanllwni

Mae diwrnod y Cylch Ti a Fi yn newid o ddydd Iau i ddydd Gwener o'r 19eg o Ebrill ymlaen. Nod y sesiynau Ti a Fi yw cynnig cyfle i rieni a gwarchodwyr fwynhau chwarae gyda'u plant a chymdeithasu mewn awyrgylch Gymreig. Mae'r plant yn cael cyfle i wneud gwaith crefft, canu a chwarae gydag amrywiaeth o deganau sydd gyda ni yn y Cylch.

Llanbedr Pont Steffan

Cymdeithas Hanes

Croesawyd pawb i gyfarfod mis Mawrth gan y cadeirydd, Selwyn Walters. Prin fod angen iddo gyflwyno siaradwraig y noson, Jen Cairns, gan iddi fod yn aelod ffyddlon a gweithgar yn y Gymdeithas. Hanes ‘Miss Saunders Fach’, Undergrove, Pentrebach oedd ganddi dan sylw, gwraig braidd yn ecentrig, ond un a oedd yn deall llawer am rinweddau llysiau ac yn ôl y sôn, yn medru rhagweld ambell ddigwyddiad. Mae yna gyfeiriad ati yn llyfr George Eyre Evans, Lampeter, 1905.

Roedd ei hen-hen dad-cu, Evan Saunders yn ddiagon gyda’r Bedyddwyr yn Coedgleision, Betws Bledrws cyn symud yr eglwys honno i’w gartref yn Aberduar tua 1730, a bu mwy nag un o’i ddisgynyddion yn weinidogion gyda’r Bedyddwyr. Daeth Thomas Saunders, ei fab (1732-1816), i fyw yn Undergrove a chafwyd trwydded i gynnal gwasanaethau yno.

Wrth ymchwilio i hanes y teulu yma daeth Jen o hyd i nifer o hanesion diddorol. Roedd ŵyr i’r Thomas Saunders uchod, Thomas Saunders arall, wedi priodi yn 1843 â Rachel Jones a aned yn Llandysul, ond yn byw gyda’i hewythr yn Dolwen, Llanwenog. Nhw oedd rhieni ‘Miss Saunders fach’ (Margaret), ond gwahanodd Thomas a Rachel drwy weithred yn 1848.

Ganwyd plentyn siawns i Margaret yn 1864, ac fe’i enwyd ef eto yn Thomas Saunders. Yn 1881 roedd yn was ym Moelfre, ond erbyn 1891 yn briod a chanddo dri o blant yn byw yn Aberdâr. Symudodd y teulu yn hwyrach i Senghennydd. Yn 1901, roedd Thomas Saunders yng ngharchar Caerdydd wedi ei ddedfrydu i ddeuddeg mis o lafur caled am achosi niwed corfforol i’w wraig.

Daeth gofid pellach i’w wraig Mary pan bu farw plentyn iddynt - Thomas Saunders eto - yn y danchwa ddifrifol yn Senghennydd yn 1913, union gan mlynedd yn ôl, ac mae’n debyg fod yna bedwar arall o’r teulu wedi colli perthynas yn yr un ddamwain. Blwyddyn wedyn, bu farw Mary ac er i’r crwner gofnodi marwolaeth trwy ddamwain, mae’n debyg mai cymryd ei bywyd a wnaeth drwy gymryd asid carbolic.

Diolchwyd yn gynnes i Jen gan y Cadeirydd am ei hymchwil trylwyr ac am noson hynod o ddiddorol gan ddod â hanes lleol yn fyw i’w chynulleidfia.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Ebrill 16eg, 7.30 yn yr Hen Neuadd pan fydd Margaret Bide yn cymharu’r diwydiant gwlân yn Romania heddiw â’r hyn oedd yng Nghymru ddoe. Croeso cynnes i bawb.

O.N. Dros y pedair blynedd nesaf, bwriedir cofnodi a digideiddio hanes sy’n cofnodi’r Rhyfel Byd Cyntaf. Os oes gan ein darllenwyr luniau neu hanesion sy’n gysylltiedig â’r cyfnod yma, byddai Cymdeithas Hanes Llanbedr yn falch iawn o’u benthyg er mwyn cyfrannu at y cofiant.

Merched y Wawr

Ar Fawrth 11eg dathlodd y gangen Wyl Ddewi yn Festri Shiloh gyda The Cymreig a oedd wedi ei baratoi gan Aelodau’r Pwyllgor.

Croesawodd y Llywydd, Noleen yr aelodau yn gynnes iawn ynghyd â’n gwestion, Aelodau Merched y Wawr Cylch Aeron a pharti ‘Bechgyn ar Wasgar’. Methodd Gill Gruffudd â bod yn bresennol oherwydd y tywydd ond edrychwn ymlaen at gael ei chwmmi ym mis Mehefin.

Ar ôl y gwledda cyflwynodd Noleen ein diddanwyr ‘Bechgyn ar wasgar’ dan arweiniad Irene Williams a’r cyfeilydd Elfyn Davies. Dywedodd fod y parti wedi ei ffurfio rhyw flwyddyn a hanner yn ôl gan rai o aelodau a chyn aelodau C FF I Dyffryn Cothi ym Mhumpsaint. Cyfeiriodd mai braf oedd gweld bechgyn ifanc yn dod at ei gilydd a chynnal nosweithiau o adloniant ar hyd a lled y wlad a rhoi o’u hamser prin i ddiddanu cynulleidfaoedd.

Diolchodd Janet yn ddiffuant ar ran pawb i’r arweinyddion am eu storïau doniol, i’r parti canu a’r unigolion am berfformiad gwych, ac am y chwerthin iach a’r boddhad mawr wrth wrando arnynt a dymunodd bob llwyddiant iddynt i’r dyfodol.

Diolchodd hefyd i aelodau’r pwyllgor am eu gwaith, i Gwyneth am drefnu’r noson ac i aelodau’r pwyllgor am gyfrannu gwobrau’r raffl. Enillwyd y mwyafrif gan Fechgyn ar Wasgar! Ceinwen Jones a enillodd y raffl fach.

Ategwyd y cyfan gan Marina James, Llywydd Cylch Aeron, gan ddatgan diolch am y gwahoddiad, y croeso a’r ddwy wledd a gawsant. Dywedodd ei bod wedi bod yn noson wefreiddiol o ddiwylliant Cymreig traddodiadol ar ei orau.

Cafwyd cyfarfod byr i ddilyn – soniodd Noleen am y diwrnod arbennig pan aeth 14 o aelodau’r gangen i Ginio Llywydd y De yn Glyn-clydach. Diwedddwyd y noson trwy ganu cân y mudiad ag Elma yn cyfeilio.

Ar Ebrill 8fed byddwn yn ymweld ag Amgueddfa Wlân Drefach Felindre a’r aelodau i gwrdd ar faes parcio’r Rookery am 6:15 y.h.

Gyrfa Chwist

Ar 13eg o fis Mawrth cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llanybi yn arwain.

Enillwyr fel a ganlyn:

Dynion – 1af – Maggie Vaughan, Bro Henllys, Felinfach. 2il – Peter Jones, Llanbedr. 3ydd – Joan Lewis, Stryd Newydd, Llanbedr.

Merched – 1af – Nanna Davies, Stryd Newydd, Llanbedr. 2il – June Mason, Rhes Harford, Llanbedr. 3ydd – Ceri Lloyd, Ffostrasol.

Carden Miniature – Dynion – Edward Lockyer, Hafan Deg. Merched – Morfudd Slaymaker, Llanbedr.

Ar 27ain o fis Mawrth cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llanybi yn arwain.

Enillwyr fel a ganlyn:

Dynion – 1af – 1af – Ray Jenkins, Llanybydder. Cydradd 2il – Peter Jones, Llanbedr a Gwendoline Jones, Llanybydder.

Merched – 1af – Nanna Davies, Stryd Newydd, Llanbedr. 2il – Sara Humphreys-Jones, Alltyblaca. 3ydd – Catrina Davies, Aberaeron.

Carden Miniature – Dynion – Dai Davies, Pensingrig, Cellan. Merched – Dilwen Roderick, Stryd y Bont, Llanbedr.

Bwrw Allan – Enillwyr – Cathrina Davies, Aberaeron a Peggy Davies, Bro Henllys, Felinfach.

Bydd Gyrfa oedd Chwist mis Ebrill ar y 10fed a’r 24ain. Croeso cynnes i bawb.

Aelwyd yr Urdd

Croesawyd Wyn John a Geraint Thomas yn gynnes iawn i gyfarfod yr Aelwyd yn ddiweddar gan Teon. Rhannwyd yr aelodau yn 3 tîm sef Merched y Wawr, y Merched a Morgan a’r 5 Gorau. Bu pawb wrthi’n frwdfrydig iawn yn cymryd rhan mewn gêmiau a chwaraeon hwyliog ac egnïol dan gyfarwyddyd Wyn a Geraint. Roedd pawb wedi cael amser wrth eu bodd ac ar ddiwedd y noson y tîm buddugol oedd y Merched a Morgan, Merched y Wawr yn ail a’r 5 Gorau yn dynn wrth eu sodlau. Diolchodd Elan i Wyn a Geraint am noson ddifyr iawn ac i Janet a Rosaline am gadw’r sgôr. Mae dyled yr aelodau yn fawr i Wyn a Geraint am fod mor barod bob amser i roi o’u hamser i’r Aelwyd.

Daeth yr aelodau ynghyd ar Fawrth 5ed i fwynhau Eisteddfod ddwl sydd bob amser yn un o uchafbwyntiau’r tymor. Cafwyd llawer o sbri yn cymryd rhan mewn cystadlaethau sgets, band y gegin, stori a sain, côr mas o diwn, grŵp llefaru dan 5 oed a gorffen limrig. Amlygwyd talent sawl unigolyn yn enwedig yn y sgets! Y beirniad doeth oedd Rhian Twynog a’i merch Sara Wyn a diolchwyd iddynt am fentro i’n plith ac am ymuno yn yr hwyl gan Caryl. Ar ddiwedd noson o gystadlu brwd a llawer o chwerthin, tîm ‘Cymru a’i Chymreictod’ oedd ar y brig a chriw

Cinio Dathlu Pen-blwydd Cangen Merched y Wawr Llanbedr Pont Steffan a’r Cylch

yn ddeugain oed yng Ngwesty Ty Glyn Aeron ar Fehefin 10fed 2013 am 7:30y.h.

Croeso cynnes i gyn-aelodau. Enw a blaendal o £10 erbyn Mai 10fed i

Gwyneth Morgan, Llety’r Dderwen, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan.

SA48 8EJ.
01570 422922.

‘Glyndwr’ yn ail agos. Bu Geinor Medi a Janet yn cadw trefn ar yr aelodau a’r beirniad!

Llongyfarchiadau i’r aelodau ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Ranbarthol yr Urdd a gynhaliwyd ym Mhonrhydfendigaid. Dyma’r canlyniadau:

Unawd Merched Bl. 10 a dan 19 oed: 1af Gwawr Hatcher, Unawd Cerdd Dant a Chyflwyno Alaw Werin: 2ail Gwawr Hatcher, Unawd Bechgyn a’r Unawd allan o Sioe Gerdd Bl. 10 a dan 19 oed: 3ydd Aron Dafydd, Unawd Cerdd Dant Bl. 7-9: 3ydd Meirion Sion Thomas, Deuawd Bl. 10 a dan 19 oed: 3ydd Meleri a Meinir Davies, Parti Cerdd Dant dan 19 oed: 1af. Dymuna’r aelodau ddiolch yn gynnes i Rhiannon am hyfforddi’r parti cerdd dant ac i Delyth Medi am ei chyfraniad amhrisiadwy hithau gyda’r paratodau. Pob dymuniad da i Gwawr a’r parti yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Benfro ddiwedd Mai.

Noddfa

Daeth cynulliad teilwng ynghyd i Noddfa i oedfa yng ngofal yr Ysgol Sul wedi ei llunio gan Janet gyda phawb o’r lleiaf i’r hynaf yn gwneud eu gwaith yn rhagorol. Trwy gyfrwng gweddïau, darlenniadau o’r Beibl a chyflwyniadau cerddorol cafwyd cyfle i gofio ac i dathlu gorfoledd y Pasg a hefyd i ryfeddu at wyrth y Gwanwyn er ei fod yn hwyr iawn yn cyrraedd y tir eleni. Lisa oedd yn gyfrifol am y croeso a’r weddi agoriadol a chyhoeddwyd yr emynau gan Osian Roberts, Sion, Dafydd, Rhys Tom, Osian Jones a Beca. Y llefarwyr oedd Teon, Lowri Elen, Llinos, Delyth a Sian Jones. Mwynhawyd unawdau swynol gan Elan a Lowri Elen, adroddiad graenus gan Gwenllian a chyflwyniad deallus o’r darn ‘Prynawn y Grog’ gan Sian Roberts Jones, Llinos, Alwena, Alwyn a Tomos Rhys. Cafwyd datganiad deulais hyfryd gan Lisa, Elan a Beca a phleser oedd gwrandao ar

Llanbedr Pont Steffan

y plant i gyd yn ymuno i ganu â Lisa, Elan a Dafydd yn cyflwyno pennill yr un. Diddorol hefyd oedd gwrando ar sgwrs gan Tomos Rhys, Teon ac Osian Jones yn dehongli neges y Pasg mewn ffordd ysgafn ond effeithiol iawn trwy ddefnyddio wyau. Cafwyd gwledd i'r llygad ac i'r glust yn ôl yr arfer yng nghwmni'r plant lleiaf a phob un ohonynt ar eu gorau. Yn eu plith roedd Tudur, aelod newydd o'r Ysgol Sul ond methodd Sion Ifan, aelod arall newydd â bod yn bresennol oherwydd anhwylddeb. Cyfeiliwyd i'r plant gan Alwena a Janet a gwasanaethwyd wrth yr organ i'r canu cynulleidfaoel gan Ann. Talodd ein Gweinidog y Parchedig Jill Tomos ddiolch haeddiannol i bawb am eu cyfraniadau graenus iawn, i Janet am drefnu'r oedfa, i rieni'r Ysgol Sul am eu cymorth parod, i'r cyfeilyddion am eu gwasanaeth hwythau ac yn olaf ond nid y lleiaf i Derek am baratoi'r llwyfan.

Llongyfarchwyd Beca a Sion am ddod yn gyntaf mewn rasys traws gwlad yn ddiweddar a hefyd Rhys Tom ar ddod yn ail a Dafydd oedd yn y pedwerydd safle. Dymunwyd yn dda iddynt i'r dyfodol.

Mae Banc Bwyd wedi ei sefydlu yn Llambod yn ddiweddar i gynorthwyo'r rhai sydd mewn angen yn ein cymdeithas. Daeth y plant â chyflenwad o fwydydd mewn tuniau er mwyn eu cyflwyno tuag at yr achos. Talodd ein Gweinidog ei gwerthfawrogiad iddynt am eu caredigrwydd gan atgoffa pawb pa mor bwysig yw dilyn esiampl Iesu Grist trwy gynorthwyo ein cyd-ddyn sy'n dioddef.

Aeth pawb o'r oedfa gan deimlo eu bod wedi cael bendith a phleser wrth gyd-addoli gyda'r plant a'r bobl ifanc mewn oedfa arbennig.

Dechrau Canu Dechrau Canmol

Braf oedd gweld pedwar o drigolion ardal Llambod sef y Parchedig Mathew Hill, Gareth Jones, Gerwyn Morgan a Sulwen Morgan yn siarad yn ddiwyll â Luned Emyr am eu ffydd Gristnogol ar y rhaglen 'Dechrau Canu Dechrau Canmol' yn ddiweddar ac yn dewis eu hoff emynau. Diddorol iawn oedd gwrando arnynt yn rhannu eu profiadau â ni'r gwylwyr.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Shiloh a Soar

Roedd ystafell y Coleg yn llawn wrth i'r ddwy Eglwys a ffrindiau oddi allan ddod at ei gilydd i ddathlu Gŵyl Ddewi. Miss Betty Griffiths M.B.E Llanilar oedd y gwestai ac mi gafodd ei chyflwyno gan

y Llywydd, Dorothy Lloyd, fel person diwylliedig a gweithgar yn ei chymuned a'i heglwys yn Rhydlwyd, Lledrod. Yn ôl y disgwyl, mi gafwyd ganddi araith i'w chofio wedi ei chyflwyno mewn ffordd gartrefol, unigryw gan lwyddo i gyplysu y difrifol a'r doniol yn ein cymdeithas y dyddiau yma. Cafwyd enghreifftiau o

hiwmor gwahanol ardaloedd Cymru heb anghofio wrth gwrs am ddawn y Cardi i ddweud stori. Mae gwreiddioldeb plant ysgol Llanilar lle bu Betty yn Brifathrawes bob amser yn rhan annatod o'i bywyd. Roedd yr araith hefyd yn seiliedig ar ddymuniad mawr ein Nawddsant ar i ni gadw ein ffydd a glynu a gweithio dros y pethau bychain. Er ein bod yn byw mewn oes dechnolegol fodern, mae yna lawer o anhapusrwydd ac unigrwydd yn ein cymdeithasau y dyddiau yma. Darllenwyd cerdd Graham Davies i'n hatgoffa am hynny ac mi gyfeiriwyd hefyd at emyn mawr y diweddar Barchedig T. Eirug Davies, rhif 782 yn Caneuon Ffydd, sydd yn weddi daer dros Gymru. Twynog Davies a gafodd y fraint i ddiolch i Betty am noson gofiadwy ac am ei gwasanaeth clodwiw bob amser i'r ddwy Eglwys, Shiloh a Soar. Diolchodd hefyd i'r swyddogion - Dorothy Lloyd y Llywydd, Owen Jones yr Ysgrifennydd gweithgar ac i'r trysorydd John Davies am wneud y gwaith yn ddi-fwlch am 63 mlynedd - tipyn o record. Hefyd, dangoswyd ein gwerthfawrogiad i Shân a'r staff yn y Coleg am baratoi pryd blasus iawn o gawl a tharten afalau ar ein cyfer. Roedd y noson heb os yn uchafbwynt hyfryd i weithgareddau'r Gymdeithas Ddiwylliadol am y flwyddyn.

Cylch Cinio

Daeth cyfres cyfarfodydd y tymor i ben gyda noson lwyddiannus iawn. Cinio'r Gwragedd ynghyd â dathlu gŵyl ein nawddsant oedd yr achlysur. Y gwestai oedd y prifardd Dr.Christine James, uwch ddarlithydd yn Adran y Gymraeg Prifysgol Abertawe. Yn ei eiriau o groeso i'r prifardd cyfeiriodd y Llywydd y Bnr. Dan Griffiths at ei magwraeth yn Nhonypany a soniodd iddi ddysgu'r Gymraeg fel ail iaith cyn symud ymlaen o Ysgol Uwchradd y Merched, Y Porth i Brifysgol Cymru, Aberystwyth, a graddio yn y Gymraeg ac wedyn ennill gradd ddoethuriaeth am ymchwil ar destun Cyfraith Hywel. Dr James oedd enillydd Coron yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhrifwyl Eryri yn 2005, ac yn ddiweddar cafodd ei hethol yn Archdderwydd Cymru - y ferch gyntaf i ddal y swydd. Pleser hefyd oedd croesawu ei phriod, Wyn James.

Yn ei hanerchiad, a chan ddefnyddio cyflwyniad PowerPoint, dewisodd Dr James olrhain profiadau personol drwy ddangos copïau a darllen a thrafod rhai o'i cherddi, sawl un ohonynt yn gysylltiedig â darn o gelfyddyd. Gelwir cerddi o'r fath yn gerddi egffrastig, meddai. Profiad digon diflas iddi tra'n yr ysgol uwchradd, er enghraifft, oedd trip i'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd a gofnodir yn y gerdd "Arddangosfa" cyn iddi ddod ar draws "Y Gusan" gan Auguste Rodin. Dechreuodd farddoni ar ôl cyfnod o salwch ac ar ôl derbyn caredigrwydd gan ffrind. Un o baentiadau Picasso oedd yn gefndir i'w cherdd gyntaf "Noethlum glas" a champwaith Michelangelo, "Creu Adda" a ddefnyddiodd wrth lunio'r gerdd "Gollwng" sy'n ymwneud â ffarwelio â'i mab hynaf ym maes awyr Heathrow. Ymysg llawer o gerddi eraill, trafododd y gerdd "Disgwyl Aberfan" (2006), wedyn cerdd a ysgrifennodd yn nhafodiaith Nantgarw ac "Olion" (2008) oedd yn seiliedig ar brofiad yn Ahrweiler yn yr Almaen a cherdd yn gysylltiedig ag ymweliad â Ffynnon Non, Tyddewi.

I gloi, dyfynnodd eiriau o Fuchedd Dewi a briodolir i Dewi ei hun, sef "byddwch lawen a chedwch eich



Nos Galan 2012 yn Seland Newydd priodwyd Dyfed Thomas, Llambod (gynt o Tŷ Newydd, Cribyn) â Greta Shirley, Waimana, Operau.

James (Trysorydd), Y Bnr. Twynog Davies (Ysgrifennydd siaradwyr), y Bnr. Tim Davies (Ysgrifennydd cyffredinol) a'r Bnr. Aneirin Jones (Ysgrifennydd y wasg). Diolchodd y Llywydd newydd yn ei dro am y dymuniadau da a'r gefnogaeth iddo yntau.



Cylch Gogledd Teifi

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, fe fuon ni yn Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi (Aberduar Llanybydder, Bethel Silian, Brynhafod Gorsgoch, Caersalem Parcyrhos, Noddfa Llambod, a Seion Cwrtnewydd) yn dilyn hynt a helynt ein gweithwyr cenhadol cyswllt, cwpl ifanc Julia a James Henley, wrth iddyn nhw deithio allan i Periwr, i Lima ac yna i Urubamba, i ledauu'r newyddion da am gariad Duw yn Iesu Grist ymhlith pobl y rhan yna o'r byd. Daeth y newyddion y llynedd eu bod yn disgwyl baban, a'u bod yn dychwelyd i Brydain ar gyfer y geni. Yn ystod eu cyfnod gartre, fe gawsant gyfle i ymweld â'r eglwysi sy'n gysylltiedig gyda nhw. Daethon nhw felly i Gylch Gogledd Teifi ar gyfer penwythnos y 9ed a'r 10ed o Fawrth. Ar y nos Sadwrn, daeth tua 40 ynghyd i glywed eu hanes cyn rhannu swper gyda'n gilydd yn festri Aberduar, ac ar y bore Sul daeth aelodau'r holl eglwysi ynghyd i Noddfa ar gyfer oedfa unedig, pan fu Julia yn arwain gweddïau arbennig ar gyfer Sul y Mamau, a James yn pregethu. Diolch i Elan am ddod i ganu yn yr oedfa! Gwerthfawrogwn yn fawr parodrwydd Julia a James i ymweld, a Katie Grace dim ond yn ddeg wythnos oed. A dymunwn fendith Duw ar eu trefniadau i deithio yn ôl i Urubamba ymhen ychydig o wythnosau, ar eu bywyd ynghyd fel teulu bach mewn lle mor wahanol, ac ar eu gwaith yn yr efengyl. Fe fu llawer o aelodau'r Cylch yn gweithio'n galed i sicrhau fod croeso'r penwythnos yn gynnes, a'r trefniadau i gyd yn eu lle, a bu'n ymweliad llwyddiannus iawn, felly diolch i bawb oedd ynglŷn â'r gwaith! Yn y llun uchod gwelir Julia, James a Katie Grace (eu merch fach nhw), Elan, swyddogion y Cylch, sef Mrs Nesta Harries, Mrs Janet Evans a Mr Dewi Davies, ynghyd â'r gweinidog yn y sêd fawr yn Noddfa.

Mis y Papur Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Gadewch i'r bobol ifanc ...

Roedd un o feirdd mawr America'n sôn am wneud y peth iawn am y rheswm anghywir. Mae yna beryg fod Cyngor Ceredigion yn trio gwneud y peth anghywir am y rheswm iawn.

Wrth i fi sgrifennu hwn, maen nhw yn y broses o ailystyried penderfyniad dadleuol am ymweliadau tramor gan ysgolion – i wahardd pobol ifanc rhag aros gyda theuluoedd. Os bydd hynny'n digwydd, mi fydd yn biti mawr.

Y rheswm iawn? Mae'n amlwg fod eisio sicrhau diogelwch pobol ifanc.

Y peth anghywir? Mae'n gam arall at greu panig afresymol tros gam-drin rhywiol a, thrwy hynny, at gynyddu'r peryglon yn lle eu gwneud nhw'n llai. Mae'n creu bwgan diangen – ac mi all camdrinwyr go iawn guddio y tu ôl i hwnnw.

Does yna ddim tystiolaeth erioed bod yr un plentyn o Geredigion wedi diodde' ar daith dramor. Alla' i ddim cofio unrhyw stori yn unrhyw le o gam-drin o'r fath yn ystod y blynyddoedd diwetha'. Mae fel sefydlu byddin, er nad oes yna elyn yno.

Mi allai cam-drin ddigwydd yn unrhyw le, wrth gwrs, ond mae tystiolaeth yn dangos mai yn y cartref, gan deulu ac ymhlith cydnabod, y mae hynny fwya' tebyg – neu mewn sefydliadau lle mae modd i blant a phobol ifanc ddod dan ddylanwad personoliaethau cryfion neu awdurdodol.

Hyd yn oed mewn achosion 'ar hap' fel rhai Jimmy Savile, fyddai'r cam-drin ddim wedi digwydd oni bai ei fod o, dros flynyddoedd, wedi creu enw mawr iddo'i hun ac wedi dod yn rhyw fath o eilun i bobol ifanc.

Go brin fod y math hwnnw o ddylanwad afiach yn gallu digwydd dros nos pan fydd pobol ifanc mewn lle dieithr ac ar eu gwyliadwriaeth. Ac heb allu dal ymlaen i ddylanwadu ar y bobol ifanc wedyn i gadw'n dawel, mi fyddai camdriniwr yn gwybod fod yna beryg o gael ei ddal.

Wrth wneud gormod o hyn, y peryg ydi ein bod yn anghofio am y bygythiad go iawn ac am y gwir cas – fod y broblem yn ein canol ni. Mae fel codi ofn ar blant y gallan nhw gael eu taro gan fellten, yn hytrach na'u taro gan gar.

Erbyn hyn, mae cylchgrawn fel Golwg yn gorfod bod yn ofalus iawn cyn cyhoeddi lluniau o blant. Hyd yn oed y lluniau mwya' diniwed. Mae peryg y bydd cymdeithas yn mynd i fethu â gwahaniaethu rhwng gweithgareddau cyffredin ac ymddygiad drwg.

Dw i'n cymryd bod cynghorau eisoes yn gwneud yn siŵr nad ydi pobol ifanc fyth yn aros gyda theulu ar eu pen eu hunain. Ac yn sicrhau fod yr ysgol y pen arall yn ddigon cyfrifol i fetio eu teuluoedd nhw.

Mae yna ffordd arall i Geredigion – a phob Ceredigion arall – ddiogelu plant. Yr arf cryfa' ydi hunan-barch y bobol ifanc a gwybod be ydi ymddygiad addas a be sy'n croesi'r ffin. Cael yr hyder i allu gwrthod a gwrthwynebu – plant bregus ac ansicr ydi targed camdrinwyr fel rheol.

Mi fyddai addysg o'r fath – fel y mae mudiad fel Hafan Cymru yn ei wneud ym maes cam-drin domestig – yn gwella diogelwch pobol ifanc ym mhob cyd-destun, gartre' yn ogystal â thramor. Eu cryfhau nhw i allu amddiffyn eu hunain yn well, beth bynnag ydi'r amgylchiadau.

Mae aros gyda theuluoedd yn ffordd wirioneddol dda o weld diwylliant gwahanol, o gael blas bach ar ffordd o fyw. Cryfhau pobol ifanc fydd effaith hynny hefyd.

Fwy nag unwaith, mi fuodd yna bobol ifanc o wledydd eraill yn aros acw, fel mewn dwsinau o gartrefi yn ardal Clonc. Y peryg mwya' i'w diogelwch nhw oedd fy nghwicio fi.

Mi fues innau'n aros mewn cartref yng Ngheredigion pan nad o'n i'n ddim ond 12 oed – adeg Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn 1969. Mae'r Urdd hefyd wedi gorfod rhoi'r gorau i'r arfer hwnnw, ond y peryg mwya' i fy niogelwch innau oedd chwyrnu Elfyn o'r gwely nesa'.

Nid cymryd peth yn ysgafn ydi hynna, ond trio rhoi tamed bach o berspectif.

Yn y Gegin gyda Gareth



'Dewch at y bwrdd mae'r bisgedi yn barod'.

Mae ystadegau yn dangos yn ddiweddar fod mwy ohonom nag erioed yn yfed te, felly yn prynu mwy o de ac yn arbrofi gyda blasau gwahanol. Yn sgil hynny rydym yn bwyta llawer mwy o fisgedi, gyda'r fisgïen "Digestive" siocled yn rhif un. Ydy, mae'r dewis yn eang iawn ac yn cyfrannu at ein teimlad cysurlawn, cartrefol a diogel. Gyda hyn mewn golwg, dyma rysetiau am fisgedi y medrwy eu gwneud gartref, ac a fydd yn gwmni i'r cwpaned te wrth ddarllen 'Clonc'. Felly ymlaen â'r tegell a mwynhewch!

Pob hwyl,
Gareth

Bisgedi blas lemwn

Cynhwysion

125gm o fenyn meddal
150gm o siwgrw caster
1 melynwy
225gm o flawd plaen
Croen un lemwn
½ llond llwy de o flas fanila

Dull

1. Trowch y ffwrn i 180°C; 350° F; Nwy 4. a gosodwch bapur gwrthsaim ar ddau dun pobi.
2. Curwch y menyn, melynwy a'r siwgrw nes bod y cyfan yn hufennog ac ysgafn. Plygwch y bawd, y fanila a'r lemwn i mewn i'r gymysgedd.
3. Rholiwch a thorwch yn gylchoedd. Gosodwch ar y tun pobi a rhowch yn y ffwrn am 15 munud. Rhowch ar wifren i oeri a sgeintiwch â siwgrw.




Cookies Clonc

Cynhwysion

100gm o fenyn meddal
100gm o siwgrw brown meddal
50gm o siwgrw caster
Un llond llwy de o fêl
Un wy wedi'i guro
Un llond llwy fwrdd o laeth
125gm o flawd codi
½ llond llwy de o bowdwr codi
½ llond llwy de o bowdwr soda(bi-carb)
175gm o flawd ceirch (oatmeal)
125gm o raisins
125gm o sglodion siocled
½ llond llwy de o sinamon

Dull

1. Trowch y ffwrn i 190°C; 375°F; Nwy 5. Paratowch ddau dun pobi.
2. Hufennwch y menyn, y siwgrw a'r mêl ac yn raddol ychwanegwch yr wy a'r laeth.
3. Yna, i fewn â'r powdwr pobi, y soda a'r bawd a'u cymysgu. Ychwanegwch y bawd ceirch, y raisins a'r darnau siocled. Gosodwch yn dameidiau ar y tun. Pobwch am tua 10 – 12 munud.
4. Gadewch i oeri ychydig yn y tun, yna codwch ar wifren.



Llanwnnen

Pen-blwydd arbennig

Dathlodd John Beaufort Williams, Brynamlwg ben-blwydd arbennig yn ddiweddar. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r diwrnod.

Ŵyr newydd .

Llongyfarchiadau i Liz a Clive Mills, Ffynnon Fair ar gael ŵyr bach newydd sef Osian Rhun i Dafydd a Sioned Mills yn Rhydowen.

Priodas Diemwnt

Bu dathlu mawr yn Hafan yn ystod y mis gan i Gomer a Ray Lewis ddathlu eu Priodas Ddiemwnt. Iechyd da i chwi eich dau eto am flynyddoedd mawr eto.

Rhifyn mis Mai
Yn y Siopau
2ail Mai

Erthyglau, Newyddion
a Lluniau i law erbyn
22ain Ebrill



Cegin Gareth

Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau

Cacennau
Dathliadau
Partïon

Cymdeithas Chwiorydd Aberduar

Cynhaliwyd Arwerthiant Blyneddol Aberduar yn y Festri nos Fercher, 20fed o Fawrth 2013, gydag amrywiaeth o nwyddau ar y byrddau. Croesawyd pawb yn gynnes gan y gweinidog y parchedig Jill Tomos. Cyflwynodd Ronald Davies, un o blant yr eglwys a wahoddwyd i fod yn ŵr gwadd y noson. Diolchodd am y gwahoddiad caredig gan ddwyn atgofion melys am dyddiau ei blentyndod yn y pentref ac yn yr ysgol Sul yn Aberduar. Bu dylanwad gweinidogaeth y Parchedig a Mrs W. H. Davies yn ddylanwad mawr ar ei fywyd, ac anogaeth Mrs Davies a'i pherswâd yn dal i fod yn fyw iawn yn ei gof. Cafwyd noson llwyddiannus iawn ac elw ariannol i goffrau Cymdeithas y Chwiorydd.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth, ac am gyd-weithio yn hwylus gyda threfniadau'r noson.

Cydymdeimlo

Estyynnwn ein cydymdeimlad gyda Alun a'r teulu oll ar golli gwraig, mam a mam-gu annwyl sef Mair Evans, Dolydd a fu farw yn Ysbyty Glangwili ar diwedd mis Mawrth.

Diolch

Dymuna Ann, Gwarduar ddiolch am bob cymorth a dymuniad da ar ôl ei llawdriniaeth yn Ysbyty Llanelli yn ddiweddar. Gwerthfawrogwn hyn yn fawr.

Yn dilyn marwolaeth Mrs Sally Davies ar Ionawr 5ed dymuna teuluoedd Brynrhosyn a Llwynfedw ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd gan gynnwys cardiau, ymweliadau, galwadau ffôn, blodau a chacennau lawer, ac am y rhoddion a dderbyniwyd tuag at Ysbyty Llanymddyfri lle derbyniodd Sally y gofal gorau posib yn ystod pythefnos olaf ei bywyd. Diolch i bawb.

Noson Goffi

Noson Goffi dan nawdd Buddiannau Henoed Llanybydder yn Festri Aberduar ar Fai 17eg am 7.00y.h. Croeso i bawb.

Eglwys Sant Pedr

Roedd gwasanaeth y Gair mis Mawrth yng ngofal y Ficer ac Eleri a'r thema oedd gweddio.

Darllenodd Heather ddarn priodol iawn o'r Beibl. Gwnaeth Eleri ddangos amryw o wrthrychau i'r gynulleidfa a oedd yn help i ni gyfathrebu. Pwrpas hynny oedd egluro i ni bwysigrwydd siarad, ac yn benodol, siarad â Duw trwy weddio. Cafodd y gynulleidfa garreg yr un a gofynnodd Eleri i ni

feddwl am rywbeth roeddem am ei gael, a gofyn i Dduw trwy'r garreg yma. Gosododd pawb y cerrig mewn jar a'u rhoi ar sil ffenest er mwyn ein hatgoffa ni am y dasg yma. Diolch i'r Ficer ac i Eleri am drefnu'r gwasanaeth.

Druan ag Elain fach a wnaeth dorri pont ei hysgwydd wrth iddi wneud 'hand stand'. Gobeithio fyddi di yn gwella'n glou.

Llongyfarchiadau i ferched talentog yr Ysgol Sul am wneud mor dda yn Eisteddfod leol yr Urdd. Da iawn i bob un ohonoch chi am ddysgu'r gwaith ac am wneud eich gorau.

Llongyfarchiadau mawr i Sophie am ddod yn ail yn yr unawd dawnsio disco yn Eisteddfod Sir yr Urdd ac i Sasha am fod yn aelod o barti dawnsio gwerin Ysgol Llanwnnen. Mae merched talentog ofnadwy gyda ni yn yr Ysgol Sul, ac rydym yn browd iawn o bob un ohonyn nhw!

Côr Lleisiau'r Werin

Yn ymarfer nos Iau 28ain o Chwefror, braf oedd rhoi croeso i aelod newydd, sef Pauline, Tyn Porth, Llanwenog i ymuno gyda'r sopranos. Gobeithio y byddwch chi yn joio yn ein cwmni ni Pauline!

Nos Iau, 7fed Mawrth cafodd y côr wybod am lwyddiant wyron aelodau'r côr yn Eisteddfodau lleol yr Urdd. Llongyfarchiadau i Nia Glydwern am ennill yr unawd canu a'r unawd cerdd dant ac am ennill yr ail wobwr yng nghystadleuaeth yr adrodd. Llongyfarchiadau hefyd i blant Ysgol Cwrtnewydd am ennill y parti Unsain a'r parti Llefaru; i blant Ysgol Gynradd Felinfach am ennill y parti llefaru; i blant Ysgol Llanwnnen am ddod yn ail yng nghystadleuaeth y dawnsio disco ac i Lowri Bellamy-Jones am ddod yn ail yn y gystadleuaeth celf a chreffft ar lefel sirol. Hefyd, rhaid llongyfarch Rhys Bellamy-Jones am ennill cystadleuaeth lefaru yn Eisteddfod Llanfihangel-ar-Arth a Gruffydd, ŵyr Alwena, am ennill cystadleuaeth Unawd Bl. 2 ac Iau yng Nghylch Aeron. Mae'n ddigbyl yn Ysgol Felinfach.

Croeso cynnes nôl i Sulwen at yr altos. Ry'n ni wedi gweld eich eisiau chi yn fawr iawn.

Ar ôl gweithio mor galed trwy'r flwyddyn, roedd y côr yn haeddu 'treat' fawr, felly nos Iau, 14eg o fis Mawrth, aeth yr aelodau am eu cinio blyneddol i westy Tyglyn.

Hyfryd oedd mwynhau bwyd da a chwmni gwell! Diolch i Edith am drefnu'r cinio ac am arwain y noson yn absenoldeb Kay.

Llongyfarchiadau i Elin, wyres Bet, ar gael ei dewis yn Frenhines Carnifal Llanybydder. Edrychwn ymlaen i dy weld ti yn dy ffrog bert ddiwrnod y Carnifal!



Yn y llun uchod mae Y Parch Suzy Bale, Eurwyn Davies, Cynthia Butcher, Kay Davies, Steve Spencer, Helen McGarrigle Nyrs Arbenigol Cancr y Fron ac Elonwy Davies.

Ym mis Rhagfyr llynedd, trefnwyd cyngerdd Nadoligaidd gan Gôr Lleisiau'r Werin yn Eglwys Sant Pedr, Llanybydder i godi arian at Uned Cancr y Fron, Ysbyty Llandochoau.

Penderfynodd y côr godi arian tuag at yr uned yma am fod Cynthia Butcher, gynt o Heol y Gaer, Llanybydder, wedi cael triniaeth arbennig yno wrth iddi ymladd cancr y fron.

Ar yr 8fed o fis Mawrth, gwnaeth rhai aelodau'r Côr a'r Eglwys fynd lawr i'r Uned i drosglwyddo siec am £730 i Helen McGarrigle, nyrs arbenigol a oedd wedi bod yn gefn enfawr i Cynthia trwy ei thriniaeth.

Diolch o galon i bawb a gymerodd ran yn y cyngerdd - i'r côr, merched Ysgol Sul yr Eglwys, plant Ysgol Sul Rhydybont, Delor, Angharad, Sioned, Arwel, Menna ac Arwel am ddarllen barddoniaeth Nadoligaidd, i aelodau'r Eglwys am eu holl gymorth ar y noson, ac i bawb a ddaeth i'r cyngerdd a rhoi mor hael at yr achos pwysig yma. Diolch i chi gyd.



Dai a Linda Jones noddwyr gwisgoedd y chwaraewyr am y flwyddyn yn cyflwyno siec o £500 ar ran Clwb Rygbi Llanybydder i Aneurin Davies o gangen Llanybydder a Llambod o Ymchwil y Cancr, arian a godwyd gan bwyllgor, chwaraewyr a chefnogwyr y clwb mewn noson o adloniant a gynhaliwyd yn ddiweddar.

Bore Coffi

gyda Sara Humphreys Jones
yn Frongelli, Alltyblaca

27 Ebrill 2013

10 o'r gloch ymlaen

Mynediad trwy rodd

Elw tuag at
Eisteddfod Genedlaethol
Cymru 2014 yn Sir Gâr

Alltyblaca

Ŵyr bach

Llongyfarchiadau i Alan a Margaret Wilson ar ddod yn dad-cu a mam-gu am y tro cyntaf, mab bach i Carys a Gwyndaf. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Pen-blwydd arbennig

Dathlodd Tina Wilson, Llwynhelyg ac Eleri Jenkins, Bryngolau eu pen-blwyddi arbennig yn ystod y mis. Gobeithio eich bod eich dwy wedi mwynhau'r dathlu.

Ysgol Y Dderi

Cafodd rhieni ac aelodau'r gymuned gyfle i fwynhau rhai o berfformiadau buddugol yr Eisteddfod mewn noson Cawl a Chân wedyn. Roedd hi'n noson hyfryd a hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd ac a gynorthwyodd mewn unrhyw ffordd.

Bu criw o blant yn cynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod Gylch yr Urdd, yn Llambled, ar Fawrth y 7fed. Llongyfarchiadau i Martha Haf Thomas am ennill y wobwr gyntaf yn y gystadleuaeth lefaru i Flwyddyn 2 ac iau, ac am ddod yn ail ar yr unawd, i Dion Teilo Reagan, o'r dosbarth Derbyn, am ennill y drydedd wobwr yn yr un gystadleuaeth ganu hefyd, i Gruffydd Thomas am gael y drydedd wobwr yn y gystadleuaeth i lefarwyr unigol Blwyddyn 3 a 4, i'r Ymgom am ennill y wobwr gyntaf ac i'r Parti Unsain am ddod yn ail. Da iawn chi, a phob hwyl i Martha ac i griw yr Ymgom (Sophie, Eleri, Emma ac Ellie) wrth iddynt fynd ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Sir ym Mhontrhydfendigaid.

Daeth llwyddiant i ran rhai o blant yr ysgol yng Nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd yn ogystal. Enillodd Chloe Betts Jones y wobwr gyntaf am grochenwaith i blant Blwyddyn 3 a 4, ac fe enillodd ei chwaer, Ffion, y wobwr gyntaf yn yr un gystadleuaeth i Flwyddyn 5 a 6. Derbyniodd Ffion y drydedd wobwr hefyd am greu pyped, ac fe ddaeth Caoimhe Reynolds o Flwyddyn 5 yn drydydd am ei gwaith tecstilau 2D. Llongyfarchiadau i'r tair ohonynt, a phob lwc i Ffion a Chloe yn y Genedlaethol!

Dathlwyd sawl diwrnod arbennig yn ddiweddar: ar Ddiwrnod y Llyfr daeth y plant i'r ysgol wedi gwisgo fel cymeriadau o'u hoff lyfrau. Yna, fel rhan o weithgareddau'r Diwrnod Mathemateg Rhyngwladol gosodwyd heriau i bob blwyddyn - chwilio am y tywel mwyaf, y genhinen hiraf, y llyfr trymaf, y cynhwysydd mwyaf a'r ffrwyth neu'r llysieuyn â'r cylchedd mwyaf, ac yn ystod Pythefnos Masnach Deg fe fu'r plant yn mwynhau

amryw o weithgareddau perthnasol hefyd. Teimlwn fod diwrnodau o'r fath yn bwysig er mwyn codi ymwybyddiaeth y plant drwy roi profiadau buddiol iddynt.

Mae traws-gwlad wedi cael tipyn o sylw gennym yn yr ysgol yn ystod y mis diwethaf, â'r plant yn mwynhau ymarfer a hyfforddi ar ei gyfer. Aeth llond bws i gystadlu'n frwd yng Nghaerfyrddin ddechrau'r mis, ac yna yn y gystadleuaeth i ysgolion y cylch yn Llambled yn ddiweddar aeth cynrychiolaeth o flynyddoedd 3, 4, 5 a 6 i redeg. Fe wnaeth pob un ymdrech arbennig, ac fe fydd sawl un yn mynd ymlaen i'r gystadleuaeth sirol yn Llangrannog cyn hir – da iawn blant, a daliwch ati.

Yn ystod mis Mawrth, bu Miss Lisa Donoghue a Miss Bethan Roberts ar daith i Norwy i ymweld ag Ysgol Gjerstad, er mwyn parhau â chysylltiadau'r prosiect Comeniws. Cafodd y ddwy amser braf yn yr eira a chyfle i ddysgu mwy am



ddiwylliant Norwy ac i rannu peth o ddiwylliant Cymru gyda staff a disgyblion yr ysgol.

Fel rhan o weithgareddau sy'n ymwneud â themâu yr hanner tymor yma, aeth plant y Cyfnod Sylfaen am ddiwrnod i Fferm Ffantasi, aeth disgyblion Blwyddyn 5 a 6 i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, a chawsant brynhawn yng nghwmni Catrin Stevens yn sôn am ei gwaith fel awdures "Hanes Atgas". Mae Blwyddyn 3 a 4 wedi mwynhau cyfres o weithdai drama gyda Mari o Gwmni Arad Goch, ac fe fyddant yn ymweld â Fferm Denmark ar fore olaf y tymor i fwynhau amrywiol weithgareddau. Ac felly, ar ôl tymor prysur arall, mae pawb yn edrych ymlaen yn eiddgar at wyliau'r Pasg!



Plant y Cyfnod Sylfaen am ddiwrnod i Fferm Ffantasi.

Hamdden

Croesawodd Llywydd y Gymdeithas sef Janet Farrow bawb yn gynnes iawn gan ddymuno iddynt Ŵyl Ddewi hapus. Braf oedd gweld Liz Holgate nôl yn ein plith ar ôl y driniaeth a gafodd. Dathlwyd Gŵyl Ddewi eleni yn 'Castle Green' ac yno cawsom wledd fendigedig o gawl a phwddin blasus dros ben. Bu i bawb wledda yn arbennig o dda. Traddodwyd y fendith gan Gwenda Thomas a Janet Farrow. Fe fydd Barry Williams, Alunda Jones, Alan Jones, Janet Farrow a Jennifer Matthias yn cymryd rhan mewn cwis sydd wedi ei drefnu gan Glwb Ffermwyr Ifanc y Dderi. Enillwyr y raffl oedd Yvonne Thomas, Joan James, Jennifer Matthias, Ceinwen Jones, Barry Williams, Joyce Harries, Maisie Morgans, Janet Farrow, Betty Green, Alan Jones, Llinos Jones, Gwenda Thomas a Sally Davies. Trip Dirgel fydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 5ed. Bydd y bws yn gadael Llambled am 1.00y. p ac yna fydd y Gwmni ac yn ôl i Llangybi. Pris y wibdaith fydd £8. Enwau i'r trysorydd ar frys os gwelwch yn dda.

Merched y Wawr Y Dderi

Dathlwyd Gŵyl ein Nawddsant fel arfer yn y Pantri ac yno cawsom groeso ac awyrgylch croesawus iawn a gwledd fendigedig i'r fwynhau. Croesawyd pawb i'r achlysur arbennig gan y Llywydd Gwyneth Jones ac fe draddodwyd y fendith gan Irene Lewis. Y gŵr gwadd oedd y Bon. Emrys Davies – brodor o Gellan ond wedi treulio rhan helaeth o'i oes yn Llundain, fel llawer o Gardi, ac yna ymddeol i ardal Rhydaman. Cafwyd ganddo hanesion difyr iawn am ei febyd yn Cellan a'r blynyddoedd a dreuliodd yn y fusnes laeth yn Llundain, fel perchennog siop ac yn olaf fel perchennog gwesty yn y brifddinas. Roedd ei araith yn dwyn atgofion i lawer un ac yn llawn hiwmor a diddordeb a phob un wedi mwynhau ei gwmni diddan. Diolchwyd iddo yn gynnes iawn am noson mor hwyliog a chofiadwy gan Gwyneth Jones, Mary Jones a Mair Spate a'r enillwyr oedd Mary Jones, Mair ate, Glenys Lloyd a Delyth Jones. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 17eg am 7.30y.h. yn Ysgol Y Dderi pryd y disgwylir Mererid Jones i sôn am Ailgylchu.

Cydymdeimlo

Estyynnir cydymdeimlad dwys y fro â Mrs Barbara Williams, Ty Maesyfelin yn ei phrofedigaeth lem ar farwolaeth ei phriod. Cydymdeimlir hefyd â Paul y mab a Sarah y ferch a'u teuluoedd yn eu colled a'r holl gysylltiadau teuluol eraill a ffrindiau.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys a Ifonwy a Lewis Davies, Cilmeri a'r teulu ar farwolaeth ei chwaer a modryb o Ddiheuwyl yn ddiweddar.

Hefyd, cydymdeimlwn a Betty Jones, Delfan a theulu Talar Wen ar golli chwaer a modryb sef Mair Davies, o Landdarog.

Bachgen bach

Llongyfarchiadau i Marian ac Emyr Rees, Caeronnen ar enedigaeth mab bach, Rhodri Gwilym ar ddechrau mis Mawrth. Brawd i Lleucu, Lowri a Glesni ac ŵyr i Roy Rees, Pantyrnnon.

18oed

Llongyfarchiadau i Sioned Davies, Llys y Wawr ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18oed yn ystod y mis

Priodas Berl

Dathlodd Gareth a Nanna Ryder eu Priodas Perl yn ystod y mis hefyd. Gobeithio eich bod wedi joio'r dathlu.

Ysgol Sul

Braf oedd croesawu plant Ysgol Sul Bwlch-y-fadfa atom ar ddydd Sul, Mawrth 17eg fel rhan o arholiad yr enwad a gafodd ei gynnal yn y Cwm. Roedd 15 o blant yn bresennol. Mrs Nanna Ryder oedd yng ngofal yr arholiad.

Diolch

Dymuna Sioned Davies, Llys y Wawr ddiolch am yr holl gardiau, negeseuon a'r rhoddion a dderbyniodd ar adeg ei phen-blwydd yn ddiweddar.

Gwellhad Buan

Nid yw Jackie Ryder, Tyngrug-ganol wedi mwynhau'r iechyd gorau yn ddiweddar. Gobeithio eich bod ar wellhad ac adref o'r ysbyty erbyn hyn.

Croeso Nôl

Ar ddiwedd mis Mawrth, ychydig cyn y Pasg symudodd Linda ac Arthur Bashford nôl i fyw i Craigle. Roeddent wedi symud i fyw i Loegr bell ers dros 25 mlynedd ac ar ôl prynu'r cartref lle bu teulu Linda yn byw, rhaid oedd ei adnewyddu cyn dod yn ôl i fyw. Croeso twymgalon iawn i chwi nôl i'r Cwm a iechyd da am flynyddoedd lawer yno.

Llwyddiant Eisteddfod yr Urdd

Ymfalchiwn yn llwyddiant plant yr ardal yn Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth yr Urdd yn ystod mis Mawrth. Pob lwc i bawb ym Moncath.

Llanllwni



Llongyfarchiadau i Alwena Owen am fod yn llwyddiannus wrth ganu ac adrodd yn Eisteddfod Llanfihangel-ar-Arth ac hefyd i Kiera Beynon am lawysgrifen. Da iawn ferched.

Ysgol Llanllwni

Bu blwyddyn 6 yn Ysgol Bro Pedr am ddiwrnod pontio yn gwneud gweithgareddau ar 'Masnach Deg'. Bu'r plant i gyd yn diddori'r henoed yng nghartref Cwm Aur yn Llanybydder fore Dydd Gŵyl Dewi. Cawsom groeso cynnes yno. Roedd yn braf gweld y plant yn eu gwisgoedd Cymreig a daeth Mr Tim Jones heibio gyda'i gamera i dynnu llun. Yn y prynhawn cynhaliwyd ein Eisteddfod Ysgol. Diolch i'r Ficer Suzy Bale am ddod i feirniadu. Cafwyd prynhawn hwylus gyda phob plentyn yn cymryd rhan yn y cystadlaethau amrywiol - canu, adrodd, dweud jôc, actio, dawnsio, sgets, parti canu, grŵp llefaru a thynnu llun a llawysgrifen. Ar diwedd y cystadlu tîm Talog dan gapteiniaeth Ceris ac Alwyn ddaeth i'r brig gan ennill y darian. Capteiniaid Hendre oedd Carys, Nia a Steffan a chapteiniaid Teifi oedd Lewis ac Iestyn. Daeth nifer o rieni a ffrindiau i gefnogi. Diolch i bawb.

Aeth rhai o blant yr Adran Iau, adeg awr ginio, i ddiddanu aelodau Clwb Cinio Llanybydder yn y 'Belle Vue'. Diolch iddynt am eu cyfraniad o £20 tuag at yr ysgol. Nos Wener, Mawrth 8fed cynhaliwyd noson o gawl a chân yn neuadd yr Eglwys Llanllwni. Trefnwyd y noson gan Bwyllgor Rhieni ac Athrawon yr Ysgol. Cafwyd eitemau gan blant yr ysgol a llywydd y noson oedd Mr Tom Bowen. Cawsom araith bwrsasol ganddo gyda'i atgofion am fod yn ddisgybl yn yr ysgol. Diolch iddo hefyd am ei gyfraniad haelionus tuag at gronfa'r ysgol. Diolch i'r rhieni am baratoi'r cawl blasus ac i bawb a gyfrannodd tuag at y noson. Gwaned elw o £511.

Aeth plant yr Adran Iau i Lanbed i gymryd rhan yng Nghystadleuaeth Traws-gwlad Ysgolion Cylch Llanbed. Bu sawl un yn llwyddiannus a dod yn y deg uchaf

yn eu rasys a byddant yn mynd ymlaen i draws-gwlad y Sir.

Treuliodd Alwyn ac Ifan ddiwrnod yn Ysgol Dyffryn Teifi yn ddiweddar gan wneud amrywiaeth o weithgareddau.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Mawrth:-

£10.00 – 182 – David Thorne, Glennydd, Llanllwni.

£5.00 – 236 – David Walker, Brynhafod, Llanllwni.

£2.50 – 62 – Ffion Harries, Maesnonni, Llanllwni.

£2.50 – 120 – Hugh Pendle, Bro Nantlais, Gwyddgrug.

£2.50 – 157 – Kelly Davies, 14 Bryndulais, Llanllwni.

Undeb y Mamau Llanllwni

I'n diddori ym mis Rhagfyr daeth Mrs. Angela Skyme o Landdarog â'i chasgliad o hetiau. Roeddem wedi ein syfrdanu wrth ei gweld yn cario'r holl focsys i'r neuadd ond buan y daethom i ddeall bod tipyn o drefn i'w gael ar ei chasgliad. Pleser pur oedd gwrandio arni yn olrhain hanes yr hetiau ac fe ddysgon ni lawer am fywyd ein cyndeidiau y prynhawn hwnnw. Diolch, Angela, am yr hwyl a'r disgrifiadau lliwgar!

Ym mis Ionawr roedd y Ficer yn ddigon caredig i drefnu cwis ar fyr rybudd. Cafwyd digon o hwyl a thynnu coes.

Ym mis Chwefror daeth mam a merch o Bontsian, sef Hefina a Rowena Cwrt, atom i'n cyfarfod. Roedd Rowena wedi dod â nifer fawr iawn o eitemau gwaith llaw gyda hi i'w harddangos. Roedd pawb yn rhyfeddu at ei chrefft a'r amrywiaeth a oedd ganddi. Wrth gwrs, roedd Mam wedi rhoi help llaw i greu rhai o'r eitemau! Diolch i'r ddwy.

Ym mis Mawrth, croesawodd Janet, ein llywydd, Mel a Davina Davies i'n plith. Yn gwmni iddynt roedd dau gi tywys Davina, ac roeddent yn ymddwyn yn berffaith! Mae gwreiddiau Davina ym



Derbyniodd Mrs Helen Williams o 'Send a Cow' £61 oddi wrthym, sef yr arian a gasglwyd yn y Cwrdd Diolchgarwch.



Daeth Mr Alun Davies o Ambiwllans Cymru i'r ysgol i dderbyn siec am £535 sef yr arian a godwyd wrth wneud taith gerdded a beicio nodedig.

Maesycrugiau ac mae nawr yn byw ym Mheniel. Gan ei bod yn dioddef o nam ar ei llygaid mae ci tywys yn angenrheidiol iddi. Mae Davina nawr yn gwneud llawer o waith i godi arian at Elusen Cŵn Tywys y Deillion. Roedd pawb wedi mwynhau gwrandio arni ac roedd ei chyfeillgarwch â'r cŵn yn cyffwrdd calon. Roedd wedi dod â nwyddau i'w gwerthu er budd yr elusen, a diolch yn fawr iddi ac i'w gŵr am gludo'r nwyddau i gyd.

Ym mis Ebrill byddwn yn dathlu pen-blwydd y gangen yn 60 oed a hynny drwy gael cinio yn y Talardd. Edrychwn ymlaen!

Yn anffodus mae'r Eglwys yn Llanllwni wedi dioddef colled arall yn ddiweddar. Bu farw Mr. Emrys Evans, Llannerch (Undergrove gynt), ysgrifennydd yr Eglwys ers nifer fawr o flynyddoedd. Roedd Emrys yn selog iawn yn y gwasanaethau, a gresyn o beth yw gweld ei sedd yn wag, a'r llais canu yn dawel. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu.

Eglwys Sant Luc

Yn ôl yr arfer mae dechrau'r flwyddyn yn adeg go brysur i aelodau'r Eglwys. Cynhaliwyd y Blygain eleni yn Eglwys Cwmann, ac roedd parti o Sant Luc yn cymryd rhan. Roedd hon yn noson hyfryd a chymdeithasol. Ar y 12ed roedd Gŵyl Calan Hen yn

Llandysul ac fe aeth parti lluosog o blant ac oedolion o Eglwys Llanllwni ymlaen i adrodd y pwnc a chanu emyn. Roedd hi'n fendithiol gweld plant yr Ysgolion Sul yn cymryd rhan ac yn sicrhau parhad yr Ŵyl hynafol, bwysig hon. Cawsom ein holi eleni gan Beth Davies ac roedd Ficer Susie Bale hithau yn gwneud ei rhan drwy holi.

Bu drama'r geni yn yr Eglwys ym mis Rhagfyr a'r plant yn mwynhau gwneud eu rhannau a hynny gyda graen.

Diolch arbennig i Janet, Bethan a'r mamau am hyfforddi'r plant a'u cludo i Ŵyl Calan Hen.

C.Ff. I Llanllwni.

Ma taith tractorau i ddathlu 70 mlynedd C.Ff.I Llanllwni ar fin dechrau! Dewch draw i T L Thomas fore Sul y 14eg o Ebrill erbyn 10 o'r gloch i gofrestru a chael tamed o frecwast yn ein cwmni. Byddwn yn dechrau bant am 10.30 am daith hamddenol o amgylch yr ardal, gan orffen yn Y Talardd am bryd o fwyd. Os nad oes gennych dractor - peidiwch â phoeni, dewch draw yn y bore i'n cefnogi a gweld y daith yn dechrau. Llywydd y dydd yw Mr Tom Lewis, Aneddle, Penader. Ma' rhagolygon y tywydd yn addo haul braf a chroeso chynnes i bawb! Felly mas â'r polish, llanwch y tanc a welwn ni chi 'na!



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,


Wel shw'mae ffrindiau bach? Rwy'n dechrau cael digon ar yr hen law 'ma bob dydd ac wedi cael llond bol ar gragen wlyb drwy'r amser. Ond un peth sydd wedi fy ngwneud i'n hapus yn ddiweddar yw gweld tîm rygbi Cymru yn ennill y bencampwriaeth unwaith eto. 'Dw i wrth fy modd yn chwarae rygbi gyda fy ffrind Jac, a phwy a wŷr, efallai rhyw ddiwrnod y caf i chwarae ochr yn ochr gydag enwogion fel Leigh Halfpenny a Sam Warburton. Ydych chi'n hoffi chwarae neu gwylio rygbi?

Rhywbeth arall a'm gwnaeth i'n hapus yn ddiweddar hefyd oedd derbyn eich holl luniau bendigedig chi. Mi fuodd nifer fawr ohonoch yn brysur iawn mis Mawrth yn lliwio'r wyau Pasg. Llongyfarchiadau i bawb fu'n lliwio, ond yn enwedig i Seren Ling o Gwmann, Elen Morgan o Drefach, Ffion Haf Thomas o Lanbedr Pont Steffan, Elis Jenkins o Alltyblaca, Jac Rees o Gwmsychpant, Alwena Mair Owen o Lanllwni, Holly Davies o Abertawe a Rhodri Gregson o Lanybydder am liwio lluniau arbennig. Diolch mawr hefyd i Mari Rees o Gwmsychpant am greu llun arbennig i Lincyn Loncyn. Yr agosaf at y brig y tro hwn oedd Ffion Haf Davies o Lanfair Clydogau a Mirain Davies o Dalgarreg gyda lluniau taclus a lliwgar iawn. Ond y llun a wnaeth fy mhlesio orau y mis hwn oedd un arbennig o liwgar Siwan Haf Davies, The Grannary, Pontsian- da iawn ti.

Cofiwch ddanfôn eich lluniau nôl erbyn diwedd y mis.

Ta ta tan toc.

Lincyn Loncyn



**Enillydd
y mis!**

**Siwan
Haf
Davies**



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol

gan David Thorne



SYNOD INN, POST MAWR (51)

Mae'r enw Synod yn digwydd yn y rhan hon o Geredigion yn 1189-95 a chysylltir yr enw hwnnw o ran safle â fferm Synod Ganol. Coffeir yr enw hefyd yn enwau dwy fferm arall sef Synod Uchaf a Synod Isaf yn ogystal â melin, ill pedwar ar lan Afon Soden.

Mae'r groesffordd brysur yn nodwedd amlwg ar ardal Synod Inn. Gerllaw'r groesffordd roedd tŷ a elwid Synodd (1760); yn ddiweddarach roedd rhan o'r tŷ hwn sef Synod House yn dafarn (1837). Enw cynharach ar y dafarn oedd Black-cock (1803); coffeir yr enw hwnnw gan Black Cock-pit-hill gerllaw. Cyfeiria'r enw Post Mawr (1891) at ebrandy sef tafarn neu lety i borthi ceffylau teithwyr; Post oedd yr enw yn 1831.

Mae'r ffaith bod yr enw Synod wedi bod yn sefydlog dros gynifer o ganrifoedd yn awgrymu cysylltiad â synod eglwysig y mae pob cof a chofnod amdani wedi diflannu erbyn hyn. Ceir, sut bynnag, gysylltiadau eglwysig cadarnach o fewn ryw filltir i Synod Inn sef Tir-esgob ynghyd â safle ganoloesol Ffynnon Ddewi. Mae'n bosibl bod gan abaty Hendy-Gwyn ar Daf diroedd yn yr ardal yn ogystal.

Mae'r elfen 'synod' yn digwydd yn ogystal yn Lletysynod (1571) a Banc Lletysynod, filltir a hanner i'r gogledd ddwyrain o Bont-rhyd-y-groes.

PANT-SOD, GLANSODEN, BRYNSODEN, AFON SODEN

Mae Afon Soden yn codi ym Mhant-sod, ychydig i'r de-ddwyrain o Synod Inn; llifa heibio i Gaerwedros a Nanternis. Yn Nanternis llifa Afon Soden dan Bont Nanternis cyn dianc i'r môr ger Llanllwchaearn. Yn yr enw Nanternis mae'r elfen gyntaf yn dynodi 'cwm' (fel yn Nantclwyd a Nant Ffrancon) ac mae Enis yn enw personol.

Mae'n ymddangos mai 'Sod' oedd enw'r afon yn wreiddiol; ychwanegiad diweddarach yw '-en' fel yn achos enwau nentydd eraill megis Tywarchen (rhwng Horeb a Thre-groes) a Collen (sy'n llifo i afon Ceri). Mae'r ffurf gynharaf ar enw nant Tywarchen yn awgrymu mai 'Llywarch' oedd yr enw gwreiddiol ar y nant honno. Ceir enghraifft debyg o Llywarch > Tywarch yn yr enw Melin Llowarch (1632) > Melin Towarch a Melin Tywarch ym Mathri yn Sir Benfro.

Mae'n bosibl mai enw person yw 'Coll' yn ogystal, er nad amhosibl yw ei gysylltu â 'collen'.

Nid ydym ddim nes at ddehongli 'Sod' hyd yma; ond gallwn o leiaf nodi bod Afon Soden arall yng Ngheredigion - a honno'n un o ragnentydd afon Mydr. Ar fap arolwg Ordnans 1891 gelwir Afon Soden ym mhlwyf Dihewyd yn Afon Feinog. Gallai'r enw hwnnw naill ai ddisgrifio natur garegog gwely'r afon neu ddynodi bod yr afon yn eiddo i Feinog. Ceir pedwar lle ym mhlwyf Dihewyd sy'n cynnwys yr elfen Feinog ond anodd penderfynu a yw'r enwau'n cyfeirio at yr afon neu'n cyfeirio at y tir gerllaw'r afon.

Tywyll yw tarddiad Sod, Soden. Ceir 'soden' yn golygu 'torth'; yng Ngheredigion 'sodren' yw pantle mewn beudy lle y disgyn tail iddo. Mae'r cyfan yn ansicr ac yn aneglur ar hyn o bryd, mae arnaf ofn.

Eisteddfodau Rhanbarth Ceredigion 2013



Buddugwyr Adran Celf a Chrefft Sirol yr Urdd o Ysgol Bro Pedr (Campws Iau) : Rhes Flaen (o'r chwith): Rhys Davies - 1af Print Lliw a 3ydd Print Monocrom; Lowri Meles James-Evans - 1af Gwaith Creadigol 3D, 1af Print Lliw, 1af Print Monocrom, 2il Graffeg Cyfrifiadurol, 2il Pyped, 2il Gemwaith, 3ydd Penwisg; Ifan Meredith - 1af Gwehyddu, 1af Gemwaith, 2il Cyfres o brintiau lliw. Rhes gefn: Julia Nagy - 2il Gwaith creadigol 3D; Austin Thomas - 1af Gwaith Creadigol 3D; Jessica McDonagh - 3ydd Gwaith Creadigol 3D; Evie McKay - 3ydd Gwaith Creadigol 3D.



Dawns Werin Bl. 4 ac Iau – 2il Ysgol Llanwnnen.



Disgyblion Carreg Hirfaen a fu'n llwyddiannus yn y gwaith celf.



Parti Bl. 6 ac Iau [Adran] – 2il Adran Llambled.



Unawd Bl. 3 a 4 – 3ydd a Unawd Cerdd Dant Bl. 3 a 4 – 3ydd Nia Morgans, Ysgol Cwrtnewydd.



Unawd Bechgyn Bl. 10 a dan 19 oed – 3ydd; Unawd allan o Sioe Gerdd Bl. 10 a dan 19 oed – 3ydd Aron Dafydd, Aelwyd Llambled.



Grŵp Llefaru Bl. 10 a dan 19 oed – 2il Ysgol Bro Pedr.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breccs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.


Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.




Côr Cerdd Dant Bl. 13 ac Iau – 1af Ysgol Bro Pedr.



Parti Cerdd Dant dan 19 oed [Aelwyd] – 1af Aelwyd Llambled.



Unawd Merched Bl. 10 a dan 19 oed – 1af; Unawd Cerdd Dant Bl. 10 a dan 19 oed -2il; Cyflwyno Alaw Werin Unigol bl. 10 a dan 19 oed – 2il Gwawr Hatcher, Aelwyd Llambled.



Dawns Hip-Hop / Stryd / Disgo Unigol Bl. 7, 8 a 9 – 1af Charlotte Saunders, Ysgol Bro Pedr.



Dawns Cyfansoddiad Creadigol [Cymysg] Bl. 6 ac Iau – 1af Ysgol Bro Pedr.

Lluniau'r Eisteddfodau Rhanbarth yn arbennig i Bapur Bro CLONC gan Nia Davies, Maesglas.



Grŵp Dawnsio Hip-Hop / Stryd / Disgo Bl. 6 ac Iau – 1af Ysgol Bro Pedr.



Unawd Bl. 2 ac Iau – 1af a Unawd Cerdd Dant Bl. 2 ac Iau – 2il Ffion Mai Davies, Ysgol Bro Pedr.



Unawd Llinynnol Bl. 6 ac Iau – 3ydd Lucy Hill, Ysgol Bro Pedr.



Cerddorfa / Band Bl. 6 ac Iau – 2il Ysgol Bro Pedr.



Cân Actol [hyd at 100 o blant] – 1af Ysgol Cwrtnewydd.